Ymchwil gymdeithasol
Social research

Rhif: 99/2014

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

www.cymru.gov.uk

# Gwerthusiad o'r Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg

## Adroddiad Interim

# Gwerthusiad o'r Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg

## Adroddiad Interim

## Arad

**Brett Duggan**, **Hefin Thomas** ac **Eirlys Pritchard Jones**

Barn yr ymchwilydd a fynegir yn yr adroddiad hwn ac nid yw o reidrwydd yn adlewyrchu barn Llywodraeth Cymru.

I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â:
Catrin Redknap
Prif Swyddog Ymchwil (Iaith Gymraeg)
Gwasanaethau Gwybodaeth a Dadansoddi
Cyllid a Gwasanaethau Corfforaethol
Llywodraeth Cymru
catrin.redknap@cymru.gsi.gov.uk
Ffôn. 029 2082 5720

Ymchwil Gymdeithasol Llywodraeth Cymru, 26 Tachwedd 2014
ISBN 978-1-4734-2521-7
© Hawlfraint y Goron 2014

Pob cynnwys ar gael o dan y Drwydded Llywodraeth Agored v3.0, heblaw am pryd y nodwyd fel arall
http://www.nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence/version/3/

# Cynnwys


| | | |
|---|---|---|
| 1. | Cyflwyniad a chyd-destun | 2 |
| 2. | Rhagdybiaethau ac egwyddorion | 16 |
| 3. | Gweledigaeth a nodau'r Strategaeth | 20 |
| 4. | Tystiolaeth o gynnydd yn erbyn nodau'r Strategaeth | 28 |
| 5. | Casgliadau interim | 50 |
| | Atodiadau | 58 |

# 1 Cyflwyniad a chyd-destun

## Cyflwyniad i'r gwerthusiad

1.1 Comisiynwyd Arad i gynnal gwerthusiad o'r Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg (y Strategaeth) ar ran Llywodraeth Cymru yn Hydref 2012. Nod y gwerthusiad yw mesur effeithiolrwydd a thraweffaith y Strategaeth, gan ystyried i ba raddau y mae'r Strategaeth wedi gwireddu'r nodau, amcanion a'r deilliannau disgwyliedig.

1.2 Mae'r gwerthusiad yn seiliedig ar raglen ymchwil gynhwysfawr sy'n cyfuno amrywiaeth o ddulliau gwerthuso. Cwblheir gwerthusiad o'r Strategaeth yn ei chyfanrwydd, ochr yn ochr ag adolygiadau o rai o'r rhaglenni penodol sy'n rhan o'r cynllun gweithredu strategol. Fel rhan o'r rhaglen ymchwil cyhoeddwyd eisoes adolygiadau o'r Cynllun Sabothol, y rhaglen gomisiynu adnoddau cyfrwng Cymraeg, a phrosiect Hyrwyddwyr Dwyieithrwydd mewn addysg bellach (gweler Adrannau 1.13-1.15 isod).[1]

1.3 Cyhoeddwyd Fframwaith Gwerthuso Arfaethedig ar gyfer y Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg yn 2011 er mwyn cefnogi'r broses o *'adolygu effeithiolrwydd y Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg, yn ogystal ag effeithiau, effeithiolrwydd ag effeithlonrwydd y polisïau a weithredir yn ei henw'* (tud. 3).[2] Cyfeiriwyd at gynnwys y Fframwaith Gwerthuso wrth gadarnhau'r dulliau ac offerynnau ymchwil yn ystod y gwerthusiad .

[1] http://wales.gov.uk/statistics-and-research/welsh-medium-education-strategy/?lang=cy
[2] Llywodraeth Cymru (2011), Fframwaith Gwerthuso Arfaethedig ar gyfer Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg http://wales.gov.uk/docs/caecd/research/120330welsheducationcy.pdf

## Cyflwyniad i'r Strategaeth

1.4 Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ei Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg (y Strategaeth) ym mis Ebrill 2010.[3] Gweledigaeth y Strategaeth yw:

*'cael system addysg a hyfforddiant sy'n ymateb mewn ffordd wedi'i chynllunio i'r galw cynyddol am addysg cyfrwng Cymraeg, sy'n cyrraedd ein cymunedau amrywiol ac yn eu hadlewyrchu ac sy'n sicrhau cynnydd yn nifer y bobl o bob oedran a chefndir sy'n rhugl yn y Gymraeg ac sy'n gallu defnyddio'r iaith gyda'u teuluoedd, yn eu cymunedau ac yn y gweithle'. (tud. 4)*

1.5 Mae'r Strategaeth yn nodi uchelgais Llywodraeth Cymru i gael gwlad lle mae addysg a hyfforddiant cyfrwng Cymraeg yn rhannau annatod o'r gyfundrefn addysg. Ceir chwe nod yn y Strategaeth sy'n llunio'r cyfeiriad strategol ar gyfer addysg a hyfforddiant cyfrwng Cymraeg a dwyieithog (gweler Pennod 4 am ddadansoddiad o'r cynnydd yn erbyn y nodau hyn). Mae 43 o amcanion strategol yn gysylltiedig â'r nodau, sydd yn sail ar gyfer cynllun gweithredu i wireddu gweledigaeth y Strategaeth. Yn olaf, ceir pum deilliant sydd yn cefnogi'r broses o fonitro'r cynnydd a wneir wrth weithredu'r Strategaeth.

## Diben yr adroddiad hwn

1.6 Mae'r adroddiad hwn yn cyflwyno diweddariad ar gynnydd y rhaglen ymchwil, ynghyd â dadansoddiad o'r dystiolaeth a gasglwyd rhwng Ionawr 2013 a Chwefror 2014 mewn perthynas â nodau ac amcanion y Strategaeth. Mae'n amlinellu tystiolaeth mewn perthynas â:

- phriodoldeb gweledigaeth, nodau a deilliannau'r Strategaeth;
- cynnydd hyd yma tuag at gyflawni chwe nod strategol y Strategaeth;

[3] Llywodraeth Cymru (2010) *Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg* http://wales.gov.uk/docs/dcells/publications/100420welshmediumstrategycy.pdf

- effeithiolrwydd y strwythurau a roddwyd yn eu lle i gefnogi gweithrediad y Strategaeth, gan gynnwys strwythurau i gryfhau'r mecanwaith cynllunio yn genedlaethol ac yn lleol;
- ystyriaeth o'r cwestiynau ymchwil pellach a amlygwyd yn y Fframwaith Gwerthuso Arfaethedig, gan gynnwys:
  - beth yw'r ffactorau allanol sydd yn dylanwadu ar allbynnau / canlyniadau / deilliannau y Strategaeth?

1.7 Mae'r adroddiad hefyd yn nodi'r materion a fydd yn derbyn sylw pellach yn ystod gweddill y rhaglen ymchwil ac yn yr adroddiad terfynol.

**Y sylfaen dystiolaeth**

1.8 Mae'r canfyddiadau a gyflwynir yn yr adroddiad interim hwn yn seiliedig ar yr elfennau canlynol a gwblhawyd rhwng Ionawr 2013 a Chwefror 2014:

<u>Gwaith maes: cyfweliadau gyda rhanddeiliaid cenedlaethol ac astudiaethau ardal</u>

- Cyfweliadau gyda rhanddeiliaid cenedlaethol: cyfwelwyd â 26 o unigolion yn cynrychioli 11 o sefydliadau gan gynnwys Llywodraeth Cymru, Estyn, ColegauCymru a swyddfa Comisiynydd y Gymraeg (gweler Atodiad 1 am fanylion pellach);
- Dwy astudiaeth ardal i gynnal ymweliadau â chyfanswm o dair ysgol uwchradd ac wyth ysgol gynradd, ynghyd â chyfweliadau gydag uwch swyddogion awdurdodau lleol (dau gyfarwyddwr addysg a dau uwch reolwr â chyfrifoldeb am ysgolion).

<u>Ymchwil pen desg</u>

1.9 Ymchwil pen desg i adolygu dogfennau polisi; adroddiadau ac adolygiadau yn gysylltiedig ag addysg Gymraeg; rheoliadau a chanllawiau; data gweinyddol yn berthnasol i ddeilliannau a

dangosyddion y Strategaeth; Cynlluniau Strategol y Gymraeg mewn Addysg (CSGAau); adroddiadau gwerthuso blaenorol a chyhoeddiadau ymchwil.

Astudiaethau o ragleni penodol a weithredir i gefnogi'r Strategaeth

- *Adolygiad o Ddefnydd ac Ansawdd yr Adnoddau a Gomisiynwyd gan Uned y Gymraeg mewn Addysg, Llywodraeth Cymru*

1.10 Seiliwyd yr adolygiad ar ddata a gasglwyd drwy gyfuniad o ddulliau ymchwil: yn gyntaf, dosbarthwyd arolwg electronig i ymarferwyr mewn ysgolion a sefydliadau addysg bellach yn canolbwyntio ar ymwybyddiaeth a'r defnydd o adnoddau a gomisiynwyd gan Lywodraeth Cymru; yn ail, casglwyd data ansoddol gan benaethiaid, athrawon pwnc, tiwtoriaid a dysgwyr. Ceir manylion pellach am y dulliau ymchwil yn adroddiad yr adolygiad.[4]

- *Adolygiad o'r Cynllun Sabothol Iaith Gymraeg ar gyfer ymarferwyr addysgol*

1.11 Cyhoeddwyd adolygiad o'r Cynllun Sabothol yn Ionawr 2014.[5] Mae'r Cynllun Sabothol yn cynnig hyfforddiant methodoleg ac iaith Gymraeg i ymarferwyr er mwyn eu galluogi i addysgu, darlithio neu hyfforddi drwy gyfrwng y Gymraeg neu'n ddwyieithog. Casglwyd data gan yr ymarferwyr a fynychodd y cyrsiau Sabothol rhwng Ionawr 2011 a Rhagfyr 2012 drwy holiadur arlein. Cwblhawyd hefyd gyfweliadau ffôn gyda sampl o ymarferwyr a rheolwyr llinell er mwyn casglu data ansoddol pellach. Cefnogwyd y gwaith gan ymchwil desg i adolygu ffurflenni cais, ffurflenni adborth ôl-gwrs, adroddiadau cymedroli'r

[4] Llywodraeth Cymru (2014b), *Adolygiad o Ddefnydd ac Ansawdd yr Adnoddau a Gomisiynwyd gan Uned y Gymraeg mewn Addysg, Llywodraeth Cymru* http://wales.gov.uk/docs/caecd/research/2014/140716-welsh-medium-education-strategy-review-use-quality-resources-cy.pdf

[5] Llywodraeth Cymru (2014a), *Gwerthusiad o'r Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg: Adolygiad o'r Cynllun Sabothol Iaith Gymraeg ar gyfer ymarferwyr addysgol: profiad cyfranogwyr 2011-2012* http://wales.gov.uk/docs/caecd/research/2014/140127-review-welsh-language-sabbatical-scheme-educational-practitioners-participant-experiences-2011-2012-cy.pdf

cyrsiau ac adroddiadau gwerthuso blaenorol. Gweler yr adroddiad am fanylion pellach.

- *Astudiaeth o waith yr Hyrwyddwyr Dwyieithrwydd mewn Addysg Bellach*

1.12 Bu'r astudiaeth hon yn seiliedig ar gyfuniad o ymchwil desg a chyfweliadau. Adolygwyd cynlluniau strategol sefydliadau, adroddiadau monitro prosiect Hyrwyddwyr Dwyieithrwydd a gyflwynir gan golegau i Lywodraeth Cymru a dogfennaeth arall sy'n berthnasol i'r prosiect Hyrwyddwyr Dwyieithrwydd. Ymwelodd aelodau'r tîm ymchwil â sefydliadau addysg bellach Cymru i gyfweld â phenaethiaid, uwch reolwyr, Hyrwyddwyr Dwyieithrwydd, tiwtoriaid a dysgwyr. Gweler yr adroddiad ar yr elfen hon o'r rhaglen ymchwil am wybodaeth bellach.[6]

## Methodoleg y gwaith maes

- *Llunio canllaw cwestiynau*

1.13 Mae'r rhaglen ymchwil yn casglu tystiolaeth drwy arolygon, ymchwil desg, cyfweliadau, grwpiau ffocws a dulliau eraill, gydag ystod eang o gyfranwyr i'r broses. Yn ystod cyfnod cychwynnol yr ymchwil, cyflwynodd y tîm ymchwil gyfres o themâu a fyddai'n clymu holl elfennau'r rhaglen, gan sicrhau cysondeb wrth gymharu tystiolaeth o wahanol elfennau'r astudiaeth ac amryw ffynonellau data. Mae'r themâu yn adlewyrchu nodau'r Strategaeth:

- *Cynllunio darpariaeth (Nodau Strategol 1 a 2)*
- *Dilyniant (Nodau Strategol 1,2 a 3)*
- *Sgiliau iaith (Nod Strategol 2,3 a 4)*
- *Datblygu'r gweithlu (Nod Strategol 4)*
- *Cymorth canolog (Nod Strategol 5)*

[6] Llywodraeth Cymru (2014c), Astudiaeth o waith yr Hyrwyddwyr Dwyieithrwydd mewn addysg bellach http://wales.gov.uk/docs/caecd/research/2014/140925-welsh-medium-education-strategy-bilingual-champions-cy.pdf

- *Teuluoedd a chymuned (Nod Strategol 6)*

1.14 Lluniwyd canllaw cwestiynau lled strwythuredig yn seiliedig ar y themâu hyn, ac yn cynnwys gwahanol gwestiynau i adlewyrchu swyddogaethau a chyfrifoldebau gwahanol gyfranogwyr (e.e. rhanddeiliaid strategol, penaethiaid ysgolion, ymarferwyr).

- *Ymweliadau ag ysgolion*

1.15 Cyn trefnu'r gwaith maes ar gyfer yr astudiaethau ardal, cytunwyd ar samplau o ysgolion ym mhob ardal gyda'r awdurdodau lleol perthnasol a chyda Llywodraeth Cymru gan sicrhau trawstoriad o ysgolion cynradd ac uwchradd. Trefnwyd ymweliadau ag ysgolion drwy swyddfa'r penaethiaid gan ysgrifennu at yr ysgol i egluro natur y prosiect ymchwil a gofyn am ganiatâd i ymweld â'r ysgol. Gofynnwyd am gyfweliadau gyda phenaethiaid, aelodau eraill yr uwch dim rheoli, penaethiaid cyfnodau allweddol, athrawon pwnc a grwpiau o ddysgwyr. Anfonwyd ffurflenni caniatâd rhieni at yr ysgolion ymlaen llaw gan ofyn iddynt ddosbarthu a chasglu ffurflenni wedi'u llofnodi gan rieni'r dysgwyr hynny a oedd yn rhan o'r grwpiau trafod.  Hyd yr ymweliadau oedd hanner diwrnod yn yr ysgolion cynradd a rhwng hanner diwrnod a diwrnod cyfan yn yr ysgolion uwchradd.

1.16 Mae'r ymweliadau ag ysgolion fel rhan o elfennau eraill yr ymchwil (Adolygiad Adnoddau ac adolygiad o ddau brosiect Cymraeg ail iaith) yn dilyn patrwm tebyg. Gweler 1.21 am ddisgrifiad o'r gwaith mewn perthynas â'r Cynllun Gweithredu Cymraeg ail iaith.

1.17 Mae'r gwaith pellach sydd i'w gwblhau yn ystod y rhaglen ymchwil yn cynnwys yr elfennau canlynol:

Pedair astudiaeth ardal

1.18 Cwblheir ymweliadau â phedair ardal rhwng Mehefin a Thachwedd 2014 i'w hychwanegu at y ddwy ardal yr ymwelwyd â hwy yn ystod y cyfnod cyn cyflwyno'r adroddiad hwn. Erbyn i'r

chwe astudiaeth ardal gael eu cwblhau bydd y dystiolaeth wedi ei seilio ar drawstoriad o ardaloedd o safbwynt lleoliad daearyddol, poblogaeth, proffil ieithyddol a nodweddion darpariaeth addysg Gymraeg. Anelir tuag at gasglu tystiolaeth mewn ystod o gyd-destunau er mwyn deall y gwahanol heriau a wynebir wrth gefnogi addysg Gymraeg mewn ysgolion Cymraeg ac ysgolion dwyieithog/dwy ffrwd.

<u>Arolwg o benaethiaid ysgolion a cholegau</u>

1.19 Pwrpas yr arolwg a gynhelir yn ystod hydref 2014 yw casglu data meintiol yn bennaf ar ganfyddiadau penaethiaid ysgolion (cynradd ac uwchradd) a cholegau addysg bellach mewn perthynas â'r cynnydd a welwyd wrth weithredu'r Strategaeth. Bydd y data yn cefnogi ac atgyfnerthu'r dystiolaeth ansoddol a gesglir drwy ddulliau ac elfennau eraill y gwerthusiad.

<u>Cyfweliadau pellach â rhanddeiliaid</u>

1.20 Cynllunnir cyfweliadau gyda sawl un o'r rhanddeiliaid a gyfrannodd eisoes i drafod ymhellach themâu'r rhaglen ymchwil. Caiff cyfweliadau eu trefnu hefyd gyda sefydliadau eraill nad ydynt eto wedi cyfrannu, gan gynnwys cynrychiolwyr awdurdodau lleol, cyrff dyfarnu a mudiadau athrawon.

<u>Adolygiadau o ddwy elfen o raglen weithredu'r Strategaeth</u>

1.21 Mae adolygiad o ddau brosiect sydd yn cefnogi gweithgareddau Cymraeg ail iaith ar y gweill. Mae'r cyntaf o'r rhain yn cynnwys adolygu gweithgareddau y mae'r Urdd yn eu cydlynu i gefnogi defnydd o'r Gymraeg y tu allan i wersi. Mae'r ail adolygiad yn canolbwyntio ar draweffaith prosiect sy'n annog addysgu cyfrwng Cymraeg mewn ysgolion cyfrwng Saesneg yng Nghyfnod Allweddol 2.

1.22 Cynhelir hefyd asesiad o draweffaith gweithredu'r Mesur Dysgu a Sgiliau (Cymru) 2009 yng nghyd-destun y Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg. Amcanion yr elfen hon o'r rhaglen ymchwil yw:

- Ystyried natur y gyd-berthynas rhwng y Mesur Dysgu a Sgiliau (Cymru) 2009 a’r Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg;
- Asesu traweffaith rhaglen Llwybrau Dysgu 14-19, gan gynnwys y cyllid grant, ar ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg neu ddwyieithog;
- Ystyried y ffactorau a allai fod yn dylanwadu ar weithrediad y Mesur Dysgu a Sgiliau (Cymru) 2009 (e.e. trafnidiaeth, technoleg, cydweithio sefydliadol, gwaith rheoli).

**Y cyd-destun hanesyddol**

1.23 Mae’n bwysig gosod y Strategaeth hon yn ei chyd-destun hanesyddol a nodi’r cerrig milltir arwyddocaol yn natblygiad addysg cyfrwng Cymraeg. Mae Ffigur 1 yn cyflwyno llinell amser sy’n nodi dyddiadau a deddfwriaeth arwyddocaol, a chyhoeddiadau allweddol ers sefydlu’r ysgol gynradd Gymraeg gyntaf yn Aberystwyth yn 1939.

1.24 Ni fyddai’n briodol agor trafodaeth yn yr adroddiad hwn ar bwysigrwydd ac arwyddocâd datblygiadau ym maes addysg Gymraeg yn ystod y 75 mlynedd diwethaf. Serch hynny mae’n ddefnyddiol ystyried yn fyr y modd y datblygodd addysg Gymraeg yn ei dyddiau cynnar. Nodir bod addysg Gymraeg *‘wedi datblygu mewn dull anstrwythuredig a darniog, heb nemor ddim cynllunio canolog cyfundrefnol’*.[7] Nid canlyniad strategaeth na chynllun cenedlaethol oedd sefydlu’r ysgolion Cymraeg cynnar; brwdfrydedd rhieni, gweithgorau lleol ac unigolion dylanwadol yn eu cymunedau a yrrodd y twf. Gan gyfeirio at ddatblygiad cynnar addysg Gymraeg yn ne-ddwyrain Cymru casglodd un sylwebydd mai *‘pobl, yn fwy na pholisi, fu’r dylanwad pennaf ar dwf ysgolion Cymraeg’* (Thomas, 2010: 256). Bu hyn hefyd yn wir mewn rhannau eraill o Gymru gyda rhieni yn ymgyrchu i sefydlu

[7] Jones, M.P. (2003) ‘*Gwaith Bwrdd yr Iaith Gymraeg ym Maes Addysg Gymraeg’* yn Roberts, G. a Williams, C. *Addysg Gymraeg Addysg Gymreig:* Prifysgol Bangor

ysgolion Cymraeg yn wyneb cyndynrwydd awdurdodau lleol mewn rhai ardaloedd i gydnabod y galw am addysg Gymraeg. O ganlyniad, ehangodd nifer yr ysgolion mewn modd tameidiog ac *ad hoc.*

1.25 Dros amser crewyd sefydliadau cenedlaethol a lwyddodd i gefnogi a chryfhau statws addysg Gymraeg (gweler Ffigur 1). Gwelwyd datblygiadau deddfwriaethol a roddodd yr hawl i ddisgyblion dderbyn addysg yn ôl dymuniadau eu rhieni (Deddf Addysg 1944), ac a sicrhaodd le mwy blaenllaw i addysg Gymraeg (Deddf Diwygio Addysg 1988). Ers ei sefydlu yn 1993 hyd ei ddiddymu yn 2012, chwaraeodd Bwrdd yr Iaith Gymraeg rôl amlwg yn natblygiad addysg cyfrwng Cymraeg. Ymysg ei swyddogaethau, bu'n gyfrifol am gymeradwyo a monitro Cynlluniau Iaith Gymraeg a Chynlluniau Addysg Gymraeg o dan Ddeddf yr Iaith Gymraeg 1993 a hefyd am weinyddu cynllun grantiau i hyrwyddo'r Gymraeg mewn addysg. Bu Awdurdod Cymwysterau, Cwricwlwm ac Asesu Cymru (ACCAC) hefyd yn sefydliad allweddol yn y gyfundrefn addysg. Bu'n gyfrifol am sicrhau ansawdd a safonau cymwysterau cyffredinol a galwedigaethol; goruchwylio holl agweddau'r cwricwlwm; a chomisiynu adnoddau dysgu Cymraeg a chyfrwng Cymraeg. Crewyd ELWa (Cyngor Cenedlaethol Addysg a Hyfforddiant Cymru) dan Ddeddf Dysgu a Sgiliau 2000 gyda'r cyfrifoldeb am ddarpariaeth addysg ôl-16 (ag eithrio addysg uwch); hyfforddiant yn y gweithle; ac addysg i oedolion. Roedd Uned Dysgu Dwyieithog ELWa yn gyfrifol am gymryd rôl arweiniol a strategol wrth ddatblygu agenda ddysgu ddwyieithog ôl-16. Cafodd ACCAC ac ELWa eu huno ag Adran Addysg a Sgiliau Llywodraeth Cynulliad Cymru yn 2006.

1.26 Ers datganoli yn 1999 bu newid i'r tirlun gwleidyddol a gweinyddol yng Nghymru; Llywodraeth Cymru sydd â chyfrifoldeb am lunio a gweithredu polisi addysg cenedlaethol. Nodwyd ymrwymiad i greu Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg genedlaethol yn

rhaglen lywodraethu Llywodraeth Cymru yn 2007.[8] Roedd cyhoeddi'r Strategaeth dair blynedd wedi hynny, ac wedi proses ymgynghori, yn ddatblygiad hanesyddol wrth i Lywodraeth Cymru gyflwyno gweledigaeth strategol a chynllun gweithredu ar gyfer sicrhau twf parhaus mewn addysg a hyfforddiant cyfrwng Cymraeg.

1.27 Gan gymryd golwg tymor hirach mae'r Strategaeth, felly, yn ganlyniad i'r symudiad o dwf anstrwythuredig addysg Gymraeg tuag at gynllunio strategol mwy systematig. Tra bod addysg Gymraeg yng nghanol y ganrif ddiwethaf wedi tyfu o'r gwaelod i fyny, mae datganoli wedi ei gwneud hi'n bosibl cynllunio ar lefel genedlaethol, gan ddefnyddio fframwaith deddfwriaethol lle bo angen i 'roi trefn' ar y broses o gynllunio darpariaeth cyfrwng Cymraeg.

*Ffigur 1: Cerrig milltir yn hanes datblygiad addysg cyfrwng Cymraeg, 1939-2012*

| | ***Digwyddiad*** |
|---|---|
| *1939* | *Agor **Ysgol yr Urdd, Aberystwyth*** |
| *1940* | *Sefydlu **Undeb Cenedlaethol Athrawon Cymru, UCAC*** |
| *1944* | ***Deddf Addysg 1944,** yn rhoi'r hawl i ddisgyblion gael eu haddysgu yn unol â dymuniadau eu rhieni* |
| *1947* | *Agor **Ysgol Gymraeg Llanelli** (Ysgol Dewi Sant yn 1953) yr ysgol Gymraeg gyntaf i'w sefydlu gan awdurdod addysg lleol* |
| *1948* | *Sefydlu **Cyd Bwyllgor Addysg Cymru*** |
| *1949* | *Ysgol **Gymraeg Ynys-lwyd**, **Aberdâr**, yr ysgol Gymraeg gyntaf yng nghymoedd y de* |
| *1952* | *Sefydlu **Undeb Rhieni Ysgolion Cymraeg** (a ddaeth yn Rhieni Dros Addysg Gymraeg, RhAG)* |
| *1955* | *Erbyn 1955, roedd 30 o ysgolion Cymraeg wedi'u sefydlu gydag ysgolion yn siroedd Fflint, Dinbych, Caernarfon, Dyfed, Powys, Abertawe, Caerdydd a Morgannwg* |
| *1956* | *Sefydlu **Ysgol Glan Clwyd**, yr ysgol uwchradd Gymraeg gyntaf* |
| *1965* | *Sefydlu'r **Swyddfa Gymreig**, yn gweithredu polisïau Llywodraeth y DU yng Nghymru* |
| *1967* | *Adroddiad Gittins yn argymell y dylid dysgu Cymraeg yn holl ysgolion cynradd Cymru* |
| *1971* | *Sefydlu **Mudiad Ysgolion Meithrin (Mudiad Meithrin)*** |
| *1974* | *Ad-drefnu llywodraeth leol* |
| *1988* | ***Deddf Diwygio Addysg 1988** yn creu'r cwricwlwm cenedlaethol gyda'r Gymraeg yn bwnc gorfodol i bob disgybl yng Nghymru; hefyd yn sefydlu Cyngor Cwricwlwm Cymru, a ddaeth yn ACCAC* |

[8] *Cymru'n Un: Rhaglen flaengar ar gyfer llywodraethu Cymru* (Mehefin 2007), Cytundeb rhwng Grŵp Llafur a Grŵp Plaid Cymru yn y Cynulliad Cenedlaethol.

| | |
|---|---|
| *1993* | *Deddf yr Iaith Gymraeg 1993 yn sefydlu* ***Bwrdd yr Iaith Gymraeg*** |
| *1996* | *Ad-drefnu llywodraeth leol a chreu 22 o awdurdodau* |
| *1996* | ***Deddf Addysg 1996*** *yn rhoi dyletswydd ar awdurdodau lleol i sicrhau bod digon o leoedd ysgolion ar gael, gan ddilyn yr egwyddor gyffredinol y dylai disgyblion gael eu haddysgu yn unol â dymuniadau eu rhieni.* |
| *1999* | *Sefydlu'r* ***Cynulliad Cenedlaethol****, Gweinidogion Cymru yn gyfrifol am bolisi addysg; diddymu'r Swyddfa Gymreig* |
| *2000* | ***Deddf Dysgu a Sgiliau 2000*** *yn sefydlu'r Cyngor Cenedlaethol Addysg a Hyfforddiant, ELWa* |
| *2003* | ***Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg*** *Bwrdd yr Iaith Gymraeg* |
| *2003* | *Llywodraeth Cymru yn cyhoeddi* ***Iaith Pawb****: Cynllun Gweithredu Cenedlaethol ar gyfer Cymru Ddwyieithog* |
| *2006* | ***Uno ELWa, ACCAC a chyrff cyhoeddus a noddir gan y Cynulliad â Llywodraeth Cymru*** |
| *2007* | ***Cymru'n Un: Rhaglen Flaengar ar gyfer Llywodraethu Cymru****, Llywodraeth Cymru* |
| *2008* | *Creu Grŵp y Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg i lunio dogfen ymgynghori* |
| *2009* | *Cyhoeddi dogfen ymgynghori Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg Llywodraeth Cymru* |
| *2010* | *Cyhoeddi* ***Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg*** *Llywodraeth Cymru* |
| *2012* | *Cyhoeddi* ***Strategaeth y Gymraeg 2012-2017 Iaith fyw: iaith byw*** *Llywodraeth Cymru* |

| | | | |
|---|---|---|---|
| *Allwedd:* | *Deddfwriaeth / datblygiadau polisi allweddol* | *Creu sefydliadau cenedlaethol* | *Agor ysgolion* |

## Y cyd-destun polisi/deddfwriaethol cyfredol

1.28 Gweithredir y Strategaeth yn ystod cyfnod o newid yn y gyfundrefn addysg yng Nghymru, gan gynnwys:

- Cynllun polisi cynhwysfawr Codi Safonau Ysgolion a gyhoeddwyd ym mis Chwefror 2011 ac a arweiniodd at sawl datblygiad polisi arwyddocaol, gan gynnwys system newydd o 'fandio' ysgolion.[9]

- Sefydlu pedwar consortiwm addysg ranbarthol i fod yn gyfrifol am gynllunio a gweithredu cynlluniau gwella ysgolion gan ganolbwyntio ar godi safonau llythrennedd a rhifedd a lleihau effaith tlodi ar gyrhaeddiad addysgol.

- *'Darparu gwasanaethau addysg yng Nghymru yn y dyfodol'* ('Adroddiad Hill', 2013*)* yn cymryd golwg eang ar effeithiolrwydd y system addysg ac yn argymell camau i godi safonau a gwella deilliannau ar gyfer dysgwyr.[10]

[9] http://wales.gov.uk/topics/educationandskills/allsectorpolicies/ourevents/raisingschoolstandards/?skip=1&lang=cy
[10] http://wales.gov.uk/consultations/education/future-delivery-of-education-services-in-wales/?skip=1&lang=cy

- Uno sefydliadau addysg bellach.
- Diwygio fframwaith ariannu a chynllunio ôl-16.
- Adolygiadau polisi arwyddocaol eraill ym maes addysg: cwblhawyd adolygiad o gymwysterau yn 2012, adolygiad o Gymraeg ail iaith[11] a Chymraeg i Oedolion yn 2013.[12]
- Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013.
- Yn fwy diweddar ym Mawrth 2014, cyhoeddodd y Gweinidog Addysg a Sgiliau y byddai adolygiad o'r cwricwlwm a threfniadau asesu yn cael ei arwain gan yr Athro Graham Donaldson.[13]

1.29 Ers cyhoeddi'r Strategaeth yn 2010 gwelwyd datblygiadau pwysig hefyd yn neddfwriaeth a pholisi iaith Gymraeg, gan gynnwys:

- cyflwyno Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 sydd wedi creu fframwaith cyfreithiol newydd ynghylch defnyddio'r Gymraeg wrth ddarparu gwasanaethau cyhoeddus;
- cyhoeddi *Iaith fyw: iaith byw* yn 2012, strategaeth pum mlynedd Llywodraeth Cymru i gefnogi'r iaith Gymraeg.

1.30 Rhoddwyd cryn sylw yn ddiweddar i ganlyniadau cyfrifiad 2011 a'r data ar nifer y siaradwyr Cymraeg. Er gwaethaf cynnydd ym mhoblogaeth Cymru, dengys y data gwymp yn nifer y siaradwyr Cymraeg o 582,000 yn 2001 i 562,000 yn 2011, sef lleihad o 20.8 y cant yn 2001 i 19.0 y cant yn 2011. Gwelwyd cwymp yn y ganran o siaradwyr Cymraeg yn llawer o gadarnleoedd traddodiadol yr iaith. Ceir amrywiadau fesul grŵp oedran, gyda chynnydd sylweddol o ran plant iau (3-4 oed), rhywfaint o gynnydd o ran oedolion 20-44 oed, a gostyngiadau yn y grwpiau

[11] Llywodraeth Cymru (2013c), *Un iaith i bawb: Adolygiad o Gymraeg ail iaith yng Nghyfnodau Allweddol 3 a 4* http://wales.gov.uk/docs/dcells/publications/130926-review-of-welsh-second-lan-cy.pdf
[12] Llywodraeth Cymru (2013d), *Codi golygon: adolygiad o Gymraeg i Oedolion* http://wales.gov.uk/docs/dcells/publications/130712-review-welsh-for-adults-cy.pdf
[13] http://wales.gov.uk/about/cabinet/cabinetstatements/2014/assessmentcurriculumreview/?skip=1&lang=cy

oedran eraill. Gweler data pellach ym Mwletin Ystadegol Llywodraeth Cymru.[14]

1.31 Mae'r Strategaeth yn bodoli ochr yn ochr ag ystod o bolisïau eraill sy'n dylanwadu ar y gyfundrefn addysg ac ar flaenoriaethau awdurdodau lleol, ysgolion a darparwyr addysg a hyfforddiant yng Nghymru. Un mater i'w ystyried yng nghyd-destun y gwerthusiad hwn yw i ba raddau y mae'r Strategaeth yn ddigon gwydn a chadarn yn wyneb datblygiadau arwyddocaol a ffactorau allanol niferus a chymhleth.

**Gweithredu a monitro'r Strategaeth**

1.32 Uned y Gymraeg mewn Addysg, uned yn Adran Addysg a Sgiliau Llywodraeth Cymru, sy'n gyfrifol am oruchwylio gweithrediad y Strategaeth. Mae capasiti a swyddogaethau'r Uned wedi tyfu yn ystod y blynyddoedd diwethaf, ers iddi drosglwyddo o fod yn Uned â chyfrifoldeb am addysg Gymraeg ôl-16 o fewn ELWa i fod yn rhan o Lywodraeth Cymru. Gwelwyd cynnydd hefyd ym maint yr Uned ers i staff ymuno o ACCAC a Bwrdd yr Iaith Gymraeg. Erbyn hyn, mae'r Uned yn gyfrifol am ddatblygu polisi ar hyd y cyfnodau addysg. Mae rôl ddeuol gan yr Uned mewn perthynas â'r Strategaeth. Yn gyntaf, mae'n gyfrifol am weithredu a monitro'r Strategaeth, gan gomisiynu prosiectau er mwyn cefnogi'r nodau a'r amcanion sydd ynddi, a chyhoeddi adroddiad blynyddol yn nodi'r cynnydd. Yn ail mae'n gyfrifol am ddylanwadu ar bolisiau addysg er mwyn sicrhau bod anghenion y sector cyfrwng Cymraeg yn cael eu prif ffrydio.

1.33 Sefydlwyd Grŵp Cynghori'r Gweinidog Addysg a Sgiliau ar y Strategaeth, sydd yn cyfarfod deirgwaith y flwyddyn ac yn cynghori'r Gweinidog ar weithrediad a blaenoriaethau'r Strategaeth.

[14] Llywodraeth Cymru (2012c), *Cyfrifiad 2011: Y Canlyniadau Cyntaf am yr Iaith Gymraeg* http://wales.gov.uk/docs/statistics/2012/121211sb1182012cy.pdf

## 2 Rhagdybiaethau ac egwyddorion

2.1 Mae'r bennod hon yn ystyried y rhagdybiaethau a'r egwyddorion sy'n sail i'r Strategaeth. Trwy drafod ac adnabod y rhain, ceir dull o brofi sail resymegol y Strategaeth. Mae'r bennod hefyd yn cynnig trosolwg o'r model rhesymeg a ddatblygwyd i gefnogi'r rhaglen ymchwil.

**Rhagdybiaethau'r Strategaeth ymgynghorol**

2.2 Cyhoeddwyd dogfen ymgynghori ar Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg ddrafft Llywodraeth Cymru ym mis Mai 2009.[15] Gellid adnabod cyfres o ragdybiaethau neu ddamcaniaethau yn y Strategaeth ddrafft ac ymddengys mai'r canlynol yw'r pwyntiau allweddol sy'n sail iddi:

i. Gellir hwyluso twf addysg cyfrwng Cymraeg drwy wella cynllunio strategol (tud. 1);

ii. Bod angen sicrhau dulliau trylwyr a dibynadwy o fesur a rhagweld y galw am addysg Gymraeg (tud. 46) a chynllunio darpariaeth ar sail ymateb i'r galw cynyddol ymhlith rhieni (tud. 5);

iii. Bydd buddsoddi ymhellach mewn addysg cyfrwng Cymraeg a sgiliau dwyieithog yn cynnig manteision economaidd a diwylliannol i ddinasyddion Cymru gyfan (tud. 30 a 31).

2.3 Ceir rhywfaint o wybodaeth yn y Strategaeth ddrafft i gefnogi'r honiadau uchod. Gan gyfeirio at bwyntiau (i.) a (ii.), uchod, nodir bod addysg cyfrwng Cymraeg wedi datblygu heb lawer o seilwaith cynllunio cenedlaethol yn y gorffennol, gan arwain at ddarpariaeth anghyson a diffyg lleoedd mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg i ateb y galw mewn rhai ardaloedd. Rhagdybir, felly, y byddai fframwaith polisi cenedlaethol (y Strategaeth) yn gwella'r modd y cynllunnir addysg Gymraeg gan gefnogi twf yn

[15] Llywodraeth Cymru (2009), *Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg Ymgynghoriad.* http://wales.gov.uk/docs/dcells/consultation/090507wmscy.pdf

narpariaeth cyfrwng Cymraeg mewn ffordd fwy strategol a chydlynus. Nid oes tystiolaeth benodol i gefnogi pwynt (iii.) uchod; hynny yw, ni cheir trafodaeth ynghylch manteision economaidd addysg Gymraeg a sgiliau dwyieithog.

## Egwyddorion y Strategaeth

2.4 Ochr yn ochr â'r rhagdybiaethau a nodwyd yn 2.2, mae'r Strategaeth ei hun yn nodi cyfres o egwyddorion sy'n cynnig gwybodaeth bellach am seiliau cysyniadol y ddogfen. Mae'r egwyddorion yn cynnwys:

- yr angen i Lywodraeth Cymru bennu gweledigaeth glir ar gyfer addysg Gymraeg a bod angen sefydlu cyfundrefn **gynllunio integredig a chadarn** ar lefel ranbarthol a lleol;
- yr angen i sicrhau **gweithredu lleol** effeithiol i gynlluniau datblygu addysg cyfrwng Cymraeg. Yn hynny o beth, derbynnir yr angen i addasu'r modd y gweithredir y Strategaeth i adlewyrchu amgylchiadau lleol heb aberthu'r egwyddorion a'r deilliannau cenedlaethol;
- nodi **ansawdd** fel un o egwyddorion sylfaenol y Strategaeth a chydnabod bod *[gwella ansawdd ac arweinyddiaeth]* yn hollbwysig er mwyn cefnogi twf mewn addysg Gymraeg.
- yr angen i gryfhau'r **isadeiledd addysg** er mwyn sicrhau:
    - bod addysg Gymraeg ar gael *'i bob cymuned'*; a
    - *'chynaliadwyedd addysg cyfrwng Cymraeg a dilyniant dysgwyr o un cyfnod i'r nesaf'*.

## Y Fframwaith Gwerthuso Arfaethedig

2.5 Mae'r Fframwaith Gwerthuso Arfaethedig ar gyfer y Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg (2011) (y Fframwaith Gwerthuso) yn

mynegi amrywiaeth eang o 'honiadau neu ddamcaniaethau' sy'n tanategu'r Strategaeth.[16]

2.6 Mae rhai o'r honiadau hyn yn datblygu ymhellach y rhagdybiaethau hynny sy'n ymhlyg yn y Strategaeth ddrafft a'r Strategaeth derfynol. Mae'r rhain yn cynnwys y manteision uniongyrchol a ddaw o fedru mwy nag un iaith, yn cynnwys ehangu rhwydweithiau cymdeithasol a chyfleoedd gyrfa a'r *'manteision mwy cyffredinol o hyrwyddo sgiliau gwybyddol, cynyddu chwimder meddyliol ac ehangu'r amrywiaeth o brofiadau diwylliannol a gaiff siaradwyr'.*

2.7 Mae cyswllt uniongyrchol rhwng sawl un o ddamcaniaethau eraill y Fframwaith Gwerthuso a nodau'r Strategaeth: pwysleisir dilyniant ieithyddol rhwng cyfnodau addysg a'r angen i gynyddu nifer yr ymarferwyr sydd â sgiliau iaith priodol i gefnogi'r cynnydd disgwyliedig mewn darpariaeth. Mae'r Fframwaith Gwerthuso Arfaethedig yn gymorth wrth adnabod nifer o'r themâu allweddol sy'n sail ar gyfer y broses o gasglu a dadansoddi tystiolaeth fel rhan o'r rhaglen ymchwil hon.

## Model rhesymeg y gwerthusiad


2.8 Gan gymryd i ystyriaeth y rhagdybiaethau a'r egwyddorion a nodwyd yn yr adrannau blaenorol, datblygwyd model rhesymeg i lywio'r gwerthusiad, gan adeiladu ar y Fframwaith Gwerthuso Arfaethedig. Un her yng nghyd-destun y gwerthusiad hwn yw sicrhau cyswllt rhwng y theori newid (y model cysyniadol sy'n tanategu'r Fframwaith Gwerthuso), prif gwestiynau'r gwerthusiad (a amlinellwyd yn y fanyleb ymchwil), a'r dulliau amrywiol ar draws gwahanol elfennau'r astudiaeth.

2.9 Penderfynwyd symleiddio'r model rhesymeg drwy adnabod y prif elfennau y bydd angen eu harchwilio yn ystod y gwerthusiad, ond heb hepgor nifer o'r cwestiynau ymchwil pwysig a nodwyd yn y Fframwaith Gwerthuso Arfaethedig (sydd wedi bwydo'r

[16] Llywodraeth Cymru (2011), *Fframwaith Gwerthuso Arfaethedig ar gyfer Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg* http://wales.gov.uk/docs/caecd/research/120330welsheducationcy.pdf

offerynnau ymchwil yn ystod yr ymchwil). Mae'r matrics isod yn crynhoi llif y model rhesymeg.

*Ffigur 2: Prif elfennau'r model rhesymeg*




2.10 Mae dwy haen (yn fras) i'r model. Yn gyntaf, cydnabyddir bod angen i'r gwerthusiad ymdrin â'r Strategaeth fel dogfen/cynllun/cyfuniad o weithredoedd 'ar ei thelerau ei hun'. Hynny yw, ystyried priodoldeb neu addasrwydd y Strategaeth; y mewnbynnau a'r gefnogaeth a fuddsoddir i'w chefnogi; yr allbynnau a welir o ganlyniad i weithredu'r Strategaeth; cynnydd yn erbyn deilliannau; a'r traweffaith – y newidiadau sydd wedi deillio o'r Strategaeth a'r gweithredoedd yn ei henw.

2.11 Yn ail, er mwyn deall traweffaith y Strategaeth, mae'n rhaid ystyried y cyd-destun ehangach a'r ffactorau eraill sy'n dylanwadu ar fewnbynnau, allbynnau ac ar gynnydd. Mae angen deall dylanwad cyd-destun allanol (cyd-destun polisi, cynllunio, ieithyddol, economaidd) ac i ba raddau y byddai'r cynnydd wedi digwydd beth bynnag, os yw'r gwerthusiad am fesur traweffaith. Yn gryno:

- Beth sydd wedi newid? A yw'r nodau a'r newidiadau a ddymunir wedi'u cyflawni?

- A ellir priodoli’r newid i fodolaeth y Strategaeth neu a yw ffactorau eraill yn gyfrifol am y newidiadau a welir?

2.12 Mae’r dystiolaeth a gyflwynir yn yr adroddiad hwn yn caniatáu trafodaeth gychwynnol ar rai elfennau o’r model rhesymeg. Ystyrir elfennau 1, ac agweddau o 2, 3 a 4. Bydd yr adroddiad terfynol yn cyflwyno tystiolaeth mewn perthynas â holl elfennau’r model.

# 3 Gweledigaeth a nodau'r Strategaeth

3.1 Mae'r adran hon yn cyflwyno crynodeb o'r dystiolaeth a gasglwyd mewn perthynas â barn rhanddeiliaid ar weledigaeth, nodau ac amcanion y Strategaeth. Mae'r sylwadau yn seiliedig ar gyfweliadau gyda chynrychiolwyr 11 o sefydliadau cenedlaethol a chydag ymarferwyr addysg yn ystod ymweliadau â 11 o ysgolion yn ystod astudiaethau ardal.

3.2 Cyflwyna'r Strategaeth weledigaeth eang sy'n datgan uchelgais Llywodraeth Cymru ar gyfer addysg cyfrwng Cymraeg. Fel y nodwyd yn adran 1.5, ceir cyfres o nodau strategol, amcanion penodol a deilliannau, wedi'u cefnogi gan ddangosyddion a thargedau ar gyfer 2015 a 2020 i fonitro'r cynnydd a wneir wrth weithredu'r Strategaeth.

**Argraffiadau ac ymwybyddiaeth**

3.3 Mae'r adrannau isod yn ystyried argraffiadau cyffredinol ac ymwybyddiaeth rhanddeiliaid o'r Strategaeth. Dylid nodi nad yw mesur ymwybyddiaeth o'r Strategaeth mewn ffordd systematig yn un o amcanion y gwerthusiad hwn, yn bennaf oherwydd gellid disgwyl gwahanol lefelau o ymwybyddiaeth o'r Strategaeth ymysg gwahanol grwpiau o randdeiliaid. Fodd bynnag, holwyd rhanddeiliaid ac ymarferwyr am eu dealltwriaeth ac argraffiadau o'r ddogfen er mwyn gosod sail i drafodaethau.

3.4 Yn ôl y disgwyl, gwelwyd lefelau amrywiol o ymwybyddiaeth o'r Strategaeth. Roedd ymwybyddiaeth ymysg cynrychiolwyr sefydliadau cenedlaethol yn uchel, gyda phawb yn ymwybodol o'r Strategaeth neu wedi'i defnyddio yng nghyswllt eu gwaith. Roedd rhanddeiliaid eraill, gan gynnwys cynrychiolwyr awdurdodau lleol â chyfrifoldeb am gynllunio darpariaeth (gan gynnwys darpariaeth cyfrwng Cymraeg) yn gyfarwydd iawn gyda chynnwys y Strategaeth. Dangosodd yr ymweliadau ag ysgolion hyd yma bod ymwybyddiaeth ymysg penaethiaid ac uwch-reolwyr yn gymharol uchel: nododd mwyafrif clir yr uwch-reolwyr eu bod yn ymwybodol

o’r Strategaeth. Serch hynny nododd lleiafrif eu bod yn *‘ymwybodol ond heb fod yn gyfarwydd’* gyda chynnwys y ddogfen. Lleiafrif o athrawon dosbarth a nododd eu bod yn ymwybodol o’r Strategaeth.

3.5 Cydnabu mwyafrif y rhanddeiliaid cenedlaethol, cynrychiolwyr awdurdodau lleol ac ymarferwyr bod y Strategaeth yn ddogfen arloesol ac arwyddocaol. Nododd y rhanddeiliaid hyn bod y Strategaeth wedi creu, am y tro cyntaf, fframwaith polisi cenedlaethol sydd yn disgrifio camau ar gyfer cefnogi twf addysg Gymraeg. Dywedodd rhanddeiliaid bod y ddogfen yn arwyddocaol am ei bod yn datgan ymrwymiad gwleidyddol i gefnogi addysg cyfrwng Cymraeg. Adroddwyd bod y Strategaeth wedi bod yn ‘arf’ pwysig i fudiadau sydd yn ceisio hybu addysg Gymraeg. Nododd cynrychiolwyr awdurdodau lleol bod bodolaeth y Strategaeth wedi cefnogi’r broses o gynllunio darpariaeth cyfrwng Cymraeg. Nododd cynrychiolwyr mewn lleiafrif o sefydliadau cenedlaethol nad yw proffil y Strategaeth mor amlwg o’i chymharu â dogfennau polisi a strategaethau eraill ym maes addysg.

## Gweledigaeth

3.6 Gweledigaeth y Strategaeth yw:

> *‘Cael system addysg a hyfforddiant sy’n ymateb mewn ffordd wedi’i chynllunio i’r galw cynyddol am addysg cyfrwng Cymraeg, sy’n cyrraedd ein cymunedau amrywiol ac yn eu hadlewyrchu ac sy’n sicrhau cynnydd yn nifer y bobl o bob oedran a chefndir sy’n rhugl yn y Gymraeg ac sy’n gallu defnyddio’r iaith gyda’u teuluoedd, yn eu cymunedau ac yn y gweithle.’*

3.7 Mae cefnogaeth i’r weledigaeth ymysg yr holl randdeiliaid a gyfrannodd i’r ymchwil hyd yma. Adroddodd nifer eu bod yn falch bod Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i gefnogi twf parhaus mewn addysg a hyfforddiant cyfrwng Cymraeg ar draws y gwahanol sectorau.

3.8 Nododd lleiafrif o'r sefydliadau cenedlaethol eu bod yn amau pa mor gyraeddadwy yw'r weledigaeth. Ym marn un rhanddeiliad, mae bwlch rhwng y weledigaeth a *'gallu neu ddyhead rhai awdurdodau lleol i gefnogi'r broses o wireddu'r weledigaeth honno'*. Fodd bynnag, cydnabu rhanddeiliaid eraill bod hon yn weledigaeth tymor hir a bod y Strategaeth yn creu'r fframwaith cynllunio er mwyn galluogi twf mewn darpariaeth.

**Nodau strategol**

3.9 Fel y nodwyd yn y cyflwyniad i'r adroddiad hwn (1.5), mae'r Strategaeth yn cynnwys chwe nod strategol. Mae Pennod 4 yr adroddiad hwn yn ystyried cynnydd yn erbyn y nodau hyn. Wrth ystyried Nod Strategol 6 yn benodol mae'n bwysig nodi'r gydberthynas rhwng y Strategaeth a *Iaith fyw: iaith byw*, Strategaeth y Gymraeg 2012-2017 a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru ym Mawrth 2012. Mae Nod Strategol 6 y Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg yn cyfeirio at '*feithrin ac atgyfnerthu sgiliau iaith yn y Gymraeg mewn teuluoedd ac yn y gymuned'*. Fodd bynnag, Strategaeth y Gymraeg sy'n gosod y cyfeiriad polisi cenedlaethol o safbwynt annog defnydd o'r iaith ar draws cymunedau Cymru gan ddiffinio canlyniadau disgwyliedig a dangosyddion ar gyfer defnydd o'r Gymraeg mewn teuluoedd. Cytunwyd yn ystod cyfnod cychwynnol y rhaglen ymchwil na fyddai Nod Strategol 6 yn derbyn yr un sylw â'r nodau strategol eraill yn ystod y rhaglen ymchwil hon. Serch hynny, mae Nod Strategol 6 yn berthnasol ac mae'r gwaith maes (yr astudiaethau ardal yn benodol) yn cynnig cyfleoedd i ymchwilio defnydd anffurfiol / cymdeithasol o'r Gymraeg gan bobl ifanc ac ystyried barn ar bwysigrwydd sgiliau iaith Gymraeg yng nghyd-destun byd gwaith.

3.10 Yn seiliedig ar y dystiolaeth a gasglwyd yn ystod cyfweliadau ac ymweliadau gwelir bod rhanddeiliaid ac ymarferwyr o'r farn bod nodau'r Strategaeth yn addas. Teimla'r mwyafrif bod y nodau yn

cwmpasu'r materion allweddol sydd angen sylw wrth gefnogi addysg Gymraeg, e.e. gwella'r broses gynllunio, sicrhau dilyniant a gwella'r cymorth canolog sydd ar gael ar gyfer addysg a hyfforddiant cyfrwng Cymraeg.

3.11 Nododd nifer o benaethiaid ysgolion a chynrychiolwyr awdurdodau lleol bod y nodau strategol yn 'gosod cyfeiriad' ar gyfer datblygiadau. Nododd un pennaeth bod y nodau yn 'ddatganiad o fwriad' ar lefel genedlaethol sy'n rhoi hwb i ymdrechion lleol i gefnogi addysg Gymraeg. Ategwyd hyn gan gynrychiolwyr o un awdurdod lleol a nododd bod yr awdurdod wedi defnyddio nodau'r strategaeth i egluro newidiadau i bolisïau iaith ysgolion i rieni.

3.12 Roedd teimlad ymysg lleiafrif o'r rhanddeiliaid bod y nodau yn rhy eang, yn 'amhenodol' neu yn agored i'w dehongli.

> *'Gallai 'gwella prosesau cynllunio' olygu gwahanol bethau i wahanol bobl ar draws Cymru - yn yr un ffordd 'mae ymateb yn rhagweithiol i'r galw' yn fy nharo i fel datganiad amhendant, os nad yn groesddweud.'  (Rhanddeiliad cenedlaethol)*

3.13 Cafwyd sylwadau gan randdeiliaid ar rai agweddau penodol o'r nodau. Er enghraifft, cyfeiriodd cynrychiolwyr sawl sefydliad cenedlaethol at Nod Strategol 3 (sef *'sicrhau bod pob dysgwr yn datblygu ei sgiliau iaith yn y Gymraeg i'w botensial llawn'*) gan gwestiynu a fydd hi'n bosibl i fesur p'un ai a yw'r nod hwn yn cael ei wireddu. Mynegodd pennaeth ysgol farn debyg gan nodi:

> *'Mae'n adlewyrchu bwriadau da ond yn llai perthnasol a diystyr ar lefel ymarferol o fewn ysgolion.' (Pennaeth ysgol uwchradd)*

3.14 A yw'r nodau strategol yn gyraeddadwy felly? Nododd rhai rhanddeiliaid bod mesur cynnydd yn erbyn y nodau yn broblematig, yn rhannol oherwydd eu bod yn cyfeirio at wella 'prosesau cynllunio' a 'dulliau o gynnig cymorth'.  Tra bod cefnogaeth i'r nodau ac i'r egwyddor o wella cynllunio er mwyn tyfu darpariaeth, adroddodd lleiafrif o benaethiaid eu bod yn

ansicr sut byddent yn cael eu hamlygu neu eu gweithredu ar lefel leol.

3.15 Ceir rhestr o 43 amcan strategol yn y Strategaeth sy'n cefnogi'r chwe nod strategol. Mae'r cynllun gweithredu yn cynnig manylion pellach ar ddulliau gweithredu'r amcanion hyn, gan nodi'r gweithredoedd, partneriaid a chyrff allweddol ac amserlenni arfaethedig. Ni aethpwyd ati hyd yma i holi barn rhanddeiliaid ar yr amcanion unigol. Serch hynny, mae Pennod 4 yn cyflwyno tystiolaeth ddechreuol mewn perthynas â'r amcanion a bwriedir rhoi sylw mwy manwl i weithrediad y cynllun gweithredu yn yr adroddiad terfynol.

### Deilliannau a thargedau

3.16 Mae'r Strategaeth yn cynnwys cyfres o ddeilliannau a thargedau er mwyn galluogi monitro'r cynnydd wrth weithredu'r cynllun gweithredu. Y deilliannau yw:

**Deilliant 1:** Mwy o blant saith oed yn cael eu haddysgu drwy gyfrwng y Gymraeg

**Deilliant 2:** Mwy o ddysgwyr yn parhau i wella eu sgiliau iaith wrth drosglwyddo o'r ysgol gynradd i'r ysgol uwchradd

**Deilliant 3:** Mwy o fyfyrwyr yn astudio ar gyfer cymwysterau drwy gyfrwng y Gymraeg

**Deilliant 4:** Mwy o fyfyrwyr 16–19 oed yn astudio pynciau drwy gyfrwng y Gymraeg, mewn ysgolion, colegau a dysgu seiliedig ar waith

**Deilliant 5:** Mwy o fyfyrwyr â sgiliau iaith uwch yn y Gymraeg

Ceir dangosyddion a thargedau sy'n berthnasol i bob deilliant yn y Strategaeth. Trafodir y deilliannau ymhellach ym Mhennod 4.

3.17 Cododd lleiafrif o randdeiliaid gwestiynau eraill am y cysylltiad rhwng y nodau strategol a deilliannau/targedau'r strategaeth: awgrymwyd bod y cyswllt rhwng y nodau strategol a'r deilliannau yn anuniongyrchol. Nododd swyddogion Llywodraeth Cymru bod y targedau wedi'u llunio yn wreiddiol (yn y Strategaeth ymgynghorol) yn seiliedig ar y setiau data a oedd ar gael ar y

pryd. Cyflwynir cynnydd yn erbyn y targedau yn yr Adroddiadau Blynyddol ar y Strategaeth a gyhoeddir gan Lywodraeth Cymru.[17]

**Cyfraniad Uned y Gymraeg mewn Addysg tuag at gefnogi nodau'r Strategaeth**

3.18 Cynhaliwyd trafodaethau gydag wyth o swyddogion yr Adran Addysg a Sgiliau (yn cynnwys cyfarwyddwr yr adran ac uwch swyddogion Uned y Gymraeg mewn Addysg (yr Uned) fel rhan o'r gwaith maes.[18] Holwyd i ba raddau y mae'r Strategaeth wedi rhoi llwyfan i'r Uned i hyrwyddo twf mewn addysg Gymraeg. Nododd swyddogion Llywodraeth Cymru (gan gynnwys staff yr Uned ac uwch swyddogion yr Adran Addysg a Sgiliau) bod proffil yr Uned wedi codi yn ystod y blynyddoedd diwethaf. Awgrymwyd bod cyfuniad o ffactorau wedi dylanwadu ar hyn: yn bennaf, bod bodolaeth y Strategaeth wedi cael effaith gadarnhaol a bod y pwyslais a roddir ar ddatblygu addysg cyfrwng Cymraeg fel un o gamau allweddol Rhaglen Lywodraethu Llywodraeth Cymru wedi hyrwyddo ymwybyddiaeth o waith yr Uned hefyd. Nid oes data gennym ar hyn o bryd gan garfan allanol (h.y. swyddogion tu allan i'r Uned) i gadarnhau neu herio sylwadau swyddogion yr Uned ond disgwylir y bydd yr adroddiad terfynol yn cyflwyno sylwadau gan unigolion eraill.

3.19 Nododd swyddogion yr Uned bod cysylltiadau gyda swyddogion canghennau neu isadrannau eraill yr Adran Addysg a Sgiliau wedi cryfhau. O ganlyniad, mae'r Uned yn rhan o drafodaethau polisi yn gynharach yn y broses ddatblygu polisi ac yn medru dylanwadu ar gynnwys dogfennau polisi a chynlluniau strategol gan gyfeirio at nodau ac ymrwymiadau Llywodraeth Cymru yn y Strategaeth. Mae'r dadansoddiad cryno o gyhoeddiadau a dogfennau polisi (gweler Adran 3.23 ac Atodiad 2) yn awgrymu bod y Strategaeth a gwaith yr Uned yn ystyriaeth yn ystod y

---

[17] Gweler manylion pellach am yr adroddiadau blynyddol yma: http://wales.gov.uk/topics/educationandskills/publications/guidance/wmesreport/?lang=cy
[18] Mae Uned y Gymraeg mewn Addysg yn rhan o Adran Addysg a Sgiliau Llywodraeth Cymru.

broses o ddatblygu a llunio polisiau'r Adran Addysg a Sgiliau yn gyffredinol. Nodwyd bod y broses o baratoi Adroddiadau Blynyddol ar y Strategaeth hefyd wedi cyfrannu at y cynnydd mewn statws a sylw i addysg cyfrwng Cymraeg. Mae'r broses o lunio'r Adroddiad Blynyddol yn gorfodi ystyriaeth o'r ffyrdd y mae gwahanol ganghennau'r Adran Addysg a Sgiliau yn cyfrannu tuag at weithrediad y Strategaeth, proses sydd ynddi'i hun yn codi ymwybyddiaeth o'r cysylltiadau rhwng y Strategaeth a meysydd gwaith eraill. Gweler Adran 3.24 am drafodaeth bellach ar y cysylltiadau rhwng y Strategaeth a dogfennau polisi eraill ym maes addysg.

**Cydberthynas rhwng nodau'r Strategaeth a pholisïau eraill Llywodraeth Cymru**

3.20 Ystyriwyd natur y gydberthynas rhwng y Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg a pholisïau cenedlaethol eraill fel rhan o'r gwaith ymchwil. Archwiliwyd yr elfen hon drwy gyfuniad o gyfweliadau a gwaith desg.

3.21 Nododd swyddogion Llywodraeth Cymru bod y gydberthynas rhwng y Strategaeth a pholisïau eraill yn rhywbeth sydd yn amlygu ei hun dros amser wrth i'r rhaglenni a weithredir i gefnogi'r Strategaeth gael eu haddasu i adlewyrchu datblygiadau newydd. Er enghraifft, mae'r Gangen Gomisiynu Adnoddau yn yr Uned wedi ymateb i'r Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd er mwyn sicrhau bod yr adnoddau a gomisiynir yn diwallu anghenion y Fframwaith.

3.22 Cyflwynwyd enghreifftiau o ddogfennau polisi diweddar lle bu swyddogion o'r Uned yn rhan o'r trafodaethau ac wedi hyrwyddo nodau'r Strategaeth yng nghyd-destun meysydd sy'n gysylltiedig ag addysg a phobl ifanc, er enghraifft Cynllun Gweithredu'r

Fframwaith Ymgysylltu a Dilyniant Ieuenctid a gyhoeddwyd yn 2013.[19]

3.23 Fel rhan o'r ymchwil desg, cwblhawyd dadansoddiad ciplun o ddogfennau polisi ac adolygiadau a gyhoeddwyd yn ystod y ddwy flynedd ddiwethaf gan yr Adran Addysg a Sgiliau. Dewiswyd y dogfennau ar sail eu dylanwad ac arwyddocad mewn perthynas â datblygiad polisi addysg yng Nghymru ac maent yn amrywio o safbwynt eu natur (e.e. mae rhai yn ddogfennau polisi Llywodraeth Cymru, eraill yn adroddiadau adolygiadau annibynnol).

3.24 Ceir cyfeiriadau penodol at y Strategaeth yn hanner y dogfennau hyn (gweler Atodiad 2). Mae bron pob un o'r dogfennau hyn yn cynnwys amcanion, gweithredoedd neu sylwadau sy'n cefnogi neu sy'n gyson â'r Strategaeth, er nad yw'r cyswllt gyda'r Strategaeth yn eglur mewn rhai ohonynt. Cyhoeddwyd sawl un o'r dogfennau yn gymharol ddiweddar ac mae'n anodd dehongli i ba raddau y mae'r cyfeiriadau at y Strategaeth wedi'u gwreiddio ac yn 'weithredol' ynteu'n fwy arwynebol ac yn gyfeiriadau at y Gymraeg 'wrth basio'. Mae hwn yn gysylltiedig â'r cwestiwn o brif ffrydio, mater y byddwn yn dychwelyd ato ar ôl cynnal trafodaethau pellach gyda rhanddeiliaid a swyddogion yn yr Adran Addysg a Sgiliau.

[19] Llywodraeth Cymru (2013f), Cynllun Gweithredu'r Fframwaith Ymgysylltu a Dilyniant http://wales.gov.uk/docs/dcells/publications/131007-ye-framework-implementation-plan-cy.pdf

# 4 Tystiolaeth o gynnydd yn erbyn nodau'r Strategaeth

4.1 Mae'r adran hon yn cyflwyno'r dystiolaeth a gasglwyd hyd yma ar gynnydd yn erbyn nodau'r Strategaeth. Mae'n seiliedig ar dystiolaeth o sawl ffynhonnell, yn cynnwys ymchwil desg, dadansoddiad o ddata'r Adroddiadau Blynyddol rhwng 2010-11 a 2013-14, ymweliadau ag ysgolion, cyfweliadau gyda rhanddeiliaid a chanfyddiadau ymchwil ar elfennau penodol y rhaglen ymchwil. Ystyrir y chwe nod yn eu tro, gan gyfeirio at ddeilliannau a chynnydd yn erbyn targedau'r Strategaeth lle bo hynny'n briodol.

4.2 Cyn cyfeirio at y dystiolaeth a gasglwyd hyd yma dylid nodi un cyfyngiad pwysig sy'n berthnasol i'r bennod hon. Nid yw'r dystiolaeth a gyflwynir yn gyflawn: mae gwaith maes pellach i'w gwblhau fel rhan o'r rhaglen ymchwil a byddwn yn dychwelyd i drafod y nodau mewn rhagor o fanylder yn yr adroddiad terfynol. Mae'r adrannau dilynol yn cynnig trosolwg o'r dystiolaeth a gyflwynwyd hyd yma.

**<u>Nod Strategol 1</u>**

> **Nod Strategol 1**: Gwella'r broses o gynllunio darpariaeth cyfrwng Cymraeg yn y cyfnodau addysg cyn statudol a statudol, ar sail ymateb yn rhagweithiol i'r galw gwybodus ymhlith rhieni.

### Cynlluniau Strategol y Gymraeg mewn Addysg a Grant y Gymraeg mewn Addysg

4.3 Noda amcan strategol cyntaf y Strategaeth (amcan strategol AS1.1) bod *'disgwyl i awdurdodau lleol gynllunio'n effeithiol ar gyfer darpariaeth cyfrwng Cymraeg'*. Cyfeiria at gyfrifoldeb Llywodraeth Cymru i oruchwylio a monitro gweithrediad y cynlluniau lleol. Mae'r CSGAau yn adeiladu ar drefniant blaenorol y Cynlluniau Addysg Gymraeg o dan Ddeddf yr Iaith Gymraeg 1993: roedd disgwyl i awdurdodau lleol nodi yn y cynlluniau

blaenorol hyn sut roeddent yn bwriadu hyrwyddo a datblygu addysg cyfrwng Cymraeg. Ym mis Rhagfyr 2011, cyflwynodd awdurdodau lleol eu Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg cyntaf i Lywodraeth Cymru, ar sail anstatudol, yn amlinellu sut y byddent yn cyfrannu tuag at nodau'r Strategaeth. Mae'r canllawiau a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru yn tanlinellu'r gydberthynas rhwng y Strategaeth a'r broses gynllunio newydd gan nodi y dylai'r cynlluniau lleol *'[d]dangos cynnydd yn erbyn targedau penodol y Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg'*.[20]

4.4 Mae'r CSGAau nawr yn ofyniad statudol ar awdurdodau lleol o dan Ddeddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013, gyda'r cynlluniau statudol cyntaf yn weithredol o'r 1af Ebrill 2014. Mae gofyn i awdurdodau lleol gyflwyno'u cynlluniau i Weinidogion Cymru, sydd â'r pŵer i gymeradwyo'r cynlluniau (gydag addasiadau neu hebddynt) neu eu gwrthod, gan baratoi cynlluniau eraill yn eu lle. Mae'r Ddeddf hefyd wedi rhoi pwerau i Weinidogion Cymru i lunio Rheoliadau.[21] Mae'r Rheoliadau yn pennu:

- ffurf a chynnwys y cynlluniau;
- trefniadau ar gyfer cyflwyniad, cyhoeddiad ac adolygiad y cynlluniau;
- y gofynion o safbwynt asesu'r galw am addysg cyfrwng Cymraeg;
- y gofynion ar awdurdodau wrth ymgynghori ynglŷn â'r cynlluniau.

4.5 Ers Ebrill 2012, mae Grant y Gymraeg mewn Addysg (GGA) wedi cyfuno cyllid a weinyddwyd yn flaenorol gan nifer o gynlluniau grant oedd yn cael eu gweinyddu gan Lywodraeth Cymru a Bwrdd yr Iaith Gymraeg. Mae'r GGA yn darparu cyllid i gefnogi'r

[20] Llywodraeth Cymru (2013g), Cynlluniau Strategol y Gymraeg mewn Addysg - canllawiau http://wales.gov.uk/topics/educationandskills/publications/guidance/welshstrategicplan/?skip=1&lang=cy
[21] Llywodraeth Cymru (2013h), Rheoliadau Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg ac Asesu'r Galw am Addysg Cyfrwng Cymraeg (Cymru) http://www.assemblywales.org/cy/bus-home/bus-business-fourth-assembly-laid-docs.htm?act=dis&id=252290&ds=1/2014

gwaith o weithredu'r Strategaeth yn lleol ac yn rhanbarthol. Cyflwynir ceisiadau grant gan gonsortia rhanbarthol, yn dangos sut y gweithredir cynlluniau a gweithgareddau ar draws y grŵp o awdurdodau perthnasol.

**Tystiolaeth mewn perthynas â Nod Strategol 1**

4.6 Cwblhawyd dadansoddiad cychwynnol o gynlluniau drafft ac adborth Gweinidogion Cymru er mwyn ystyried cyfraniad y trefniadau tuag at wella a chysoni prosesau cynllunio awdurdodau lleol. Rhoddwyd ystyriaeth fanwl gan Weinidogion Cymru i 21 o Gynlluniau Strategol y Gymraeg mewn Addysg. Canlyniadau'r broses, yn gryno, oedd:

- cymeradwyo tri chynllun fel y'i cyflwynwyd; a
- chymeradwyo 18 cynllun gydag addasiadau.

(Rhoddwyd estyniad i'r amserlen cyflwyno i un awdurdod.)

4.7 Fel y nodwyd uchod (4.4) mae'r grym gan Weinidogion Cymru i gymeradwyo'r CSGAau yn caniatáu iddynt gynnig adborth ac addasiadau er mwyn sicrhau safonau uchel o ran cynllunio darpariaeth. Fel rhan o'r astudiaeth hon adolygwyd cynlluniau drafft, llythyron cymeradwyo a chynlluniau diwygiedig sampl o bedwar awdurdod lleol gan ganolbwyntio ar natur yr adborth a gyflwynir gan Lywodraeth Cymru. Gwelwyd adborth mewn perthynas ag ystod o faterion, gan gynnwys:

- yr angen i awdurdodau bennu targedau penodol neu fwy grymus i gefnogi deilliannau'r Strategaeth;
- dulliau mesur y galw a chynllunio lleoedd ysgol ar gyfer rhagamcanion niferoedd;
- camau i hyrwyddo defnydd o'r Gymraeg y tu allan i ysgol;
- camau i gynyddu'r ddarpariaeth drwy gyfrwng y Gymraeg mewn ysgolion uwchradd cyfrwng Saesneg.

4.8 Gwelwyd enghreifftiau yn y cynlluniau hynny a adolygwyd o awdurdodau lleol yn ymateb yn gadarnhaol i'r cynigion penodol

yn y llythyrau adborth gan fanylu ymhellach ar gamau gweithredu a thargedau. Byddwn yn cynnal dadansoddiad mwy dwys o'r broses fonitro a chynnwys y CSGAau yn yr adroddiad terfynol.

4.9 Holwyd barn penaethiaid sefydliadau, athrawon a phartneriaid eraill i ddirnad effeithiolrwydd y CSGAau yn y broses o gynllunio darpariaeth cyfrwng Cymraeg ac i gael gwell dealltwriaeth o'r galw am addysg Gymraeg. Cytuna penaethiaid sefydliadau, cynrychiolwyr awdurdodau lleol a rhanddeiliaid cenedlaethol bod y CSGAau yn rhan ganolog o'r mecanwaith cynllunio newydd a ddeilliodd o'r Strategaeth. Teimlant fod CSGAau wedi gwneud y broses o gynllunio yn *'fwy ffurfiol, ac wedi golygu bod cynulleidfa fwy eang yn rhan o drafodaethau am ddarpariaeth addysg Gymraeg nag yn y gorffennol'* (swyddog awdurdod lleol). Nododd un cyfrannwr ei fod yn ystyried bod y CSGAau yn creu gwell *'atebolrwydd'* a'r gallu i *'herio awdurdodau lleol am eu cynlluniau a'u gweithredoedd'* (cynrychiolydd o sefydliad cenedlaethol).

4.10 Cytuna awdurdodau lleol, swyddogion Llywodraeth Cymru ac ysgolion bod y rhain yn ddyddiau cynnar o ran sefydlu a gwreiddio'r cynlluniau hyn. Mae'r broses gymeradwyo yn golygu bod swyddogion Llywodraeth Cymru yn cydweithio'n gyson gydag awdurdodau i fonitro'r broses o lunio'r cynlluniau a sicrhau eu bod yn cydymffurfio â'r gofynion statudol. Ategodd swyddogion awdurdodau lleol y farn hon. Nid yw'n realistig i ddisgwyl y bydd traweffeithiau'r gyfundrefn gynllunio newydd yn amlygu'u hunain yn llawn yn ystod oes y Strategaeth hon (2010-2015). Bydd angen rhaglen fonitro a gwerthuso dros y tymor hir er mwyn deall y cynnydd ac unrhyw newidiadau i ddarpariaeth sy'n deillio o'r trefniadau cynllunio newydd. Fodd bynnag, mae sawl mater fydd yn derbyn sylw pellach fel rhan o'r rhaglen ymchwil hon i asesu cynnydd mewn perthynas â Nod Strategol 1. Crynhoir y rhain isod.

*Dylanwad y Strategaeth ar gynllunio lefel ysgol*

4.11 Un mater sy'n haeddu sylw yw'r graddau y mae ysgolion, yn eu prosesau cynllunio hwy, yn adlewyrchu'r weledigaeth a blaenoriaethau cenedlaethol i gryfhau darpariaeth cyfrwng Cymraeg a/neu ddwyieithog. O'r ymweliadau ag ysgolion a gwblhawyd hyd yma fel rhan o'r astudiaethau ardal (tair ysgol uwchradd ac wyth ysgol gynradd) nid yw'n amlwg bod 'ysbryd' a nodau'r Strategaeth yn treiddio drwy'r system ac yn dylanwadu ar gynllunio ysgolion. Byddwn yn parhau i ymchwilio hyd a lled dylanwad y Strategaeth ar lefel ysgol fel rhan o'r astudiaethau ardal i ddilyn.

*Asesu'r galw am ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg*

4.12 Mae Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 yn ei gwneud hi'n ofynnol i awdurdodau lleol, o dan amodau penodol, fesur y galw am addysg cyfrwng Cymraeg. Disgwylir y gallai'r gofyniad cyfreithiol newydd hwn gael effaith ar gynllunio lleol a, maes o law, ar nifer y plant sy'n cael eu haddysgu drwy gyfrwng y Gymraeg. Byddwn yn ystyried y gwahanol ddulliau o fesur y galw am ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg. Bydd ymchwil desg a thrafodaethau pellach yn cynnig cyfleoedd i ddeall y trefniadau sydd mewn lle i sicrhau bod awdurdodau lleol yn cydymffurfio â'r gofynion mewn perthynas ag asesu'r galw a amlinellir yn *Rheoliadau Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg ac Asesu'r Galw am Addysg Cyfrwng Cymraeg (Cymru) 2013*.[22]

## Cynnydd mewn perthynas â Deilliant 1 [23]

4.13 Wrth archwilio Adroddiadau Blynyddol y Strategaeth gwelir mai ychydig o gynnydd a wnaed yn gyffredinol yn erbyn targedau'r

[22] http://www.assemblywales.org/cy/bus-home/bus-business-fourth-assembly-laid-docs.htm?act=dis&id=252290&ds=1/2014

[23] Rhoddir sylw i'r cynnydd mewn perthynas â deilliannau eraill y Strategaeth yn yr adrannau sy'n dilyn. Ystyrir y deilliannau ochr yn ochr â'r nodau strategol perthnasol.

Strategaeth hyd yn hyn. Nododd y Gweinidog Addysg a Sgiliau yn Adroddiad Blynyddol 2012-13:[24]

> *'rydym yn annhebygol o weld 25 y cant o blant saith oed yn cael eu haddysgu drwy gyfrwng y Gymraeg erbyn 2015.'*

4.14 Gwelwyd peth cynnydd yn nifer y dysgwyr saith oed sy'n cael eu hasesu yn y Gymraeg yn ystod y blynyddoedd ers cyhoeddi'r Strategaeth.[25] Cododd niferoedd o 6,560 yn 2010 i 7,229 yn 2012.[26] Er bod twf wedi'i gofnodi, ni ellir priodoli hyn i ddylanwad y Strategaeth. Roedd y plant a aseswyd yn 2012 eisoes yn y system addysg erbyn i'r Strategaeth gael ei chyhoeddi.

## Nod Strategol 2

| |
|---|
| **Nod Strategol 2**: Gwella'r broses o gynllunio darpariaeth cyfrwng Cymraeg yng nghyfnodau ôl-14 addysg a hyfforddiant, gan ystyried dilyniant ieithyddol a datblygu sgiliau'n barhaus. |

### Cynyddu cyfleoedd i astudio drwy gyfrwng y Gymraeg 14-19

4.15 Wrth gyflwyno tystiolaeth mewn perthynas â'r nod strategol uchod, ystyrir y dystiolaeth a gasglwyd hyd yma yn ystod ymweliadau ag ysgolion fel rhan o astudiaethau ardal, yn ogystal â chanfyddiadau'r astudiaethau o brosiect Hyrwyddwyr Dwyieithrwydd a'r Cynllun Sabothol. Bydd elfen bellach o'r rhaglen ymchwil yn ystyried dylanwad gweithredu'r Mesur Dysgu a Sgiliau (Cymru) 2009 yng nghyd-destun y Strategaeth. Bydd y gwaith hwn yn asesu traweffaith rhaglen Llwybrau Dysgu 14-19, gan gynnwys y cyllid grant sy'n rhan o'r rhaglen, ar ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg a dwyieithog.

---

[25] http://wales.gov.uk/docs/dcells/publications/130710-welsh-education-strategy-report-cy.pdf

[26] Er gwaetha'r twf yn niferoedd y dysgwyr a asesir drwy gyfrwng y Gymraeg, ni fu cynnydd yng nghanran y dysgwyr Blwyddyn 2 sy'n cael eu hasesu yn y Gymraeg yn sgil cynnydd sylweddol yn nifer y disgyblion cyffredinol yn ystod yr un cyfnod.

*Cydweithio a chynllunio ar gyfer cynyddu darpariaeth cyfrwng Cymraeg 14-19*

4.16 Cwblhawyd ymweliadau â thair ysgol uwchradd fel rhan o'r astudiaethau ardal cyntaf. Rhoddodd yr ymweliadau hyn gyfle i holi barn ysgolion ynghylch y cydweithio a'r cyd-gynllunio sydd yn digwydd drwy'r Fforymau Cyfrwng Cymraeg 14-19 i gefnogi a hyrwyddo darpariaeth mewn ystod ehangach o bynciau. Adroddodd y tair ysgol bod cydweithio rhwng ysgolion uwchradd â'i gilydd a rhwng ysgolion uwchradd a cholegau wedi gwella yn ystod y blynyddoedd diwethaf, gyda Fforymau 14-19 yn chwarae rhan allweddol wrth sbarduno'r cysylltiadau. Ategwyd hyn yn yr astudiaeth o waith yr Hyrwyddwyr Dwyieithrwydd a gasglodd bod cydweithio cynyddol yn digwydd rhwng colegau ac ysgolion er mwyn ceisio sicrhau dilyniant mewn darpariaeth addysg cyfrwng Cymraeg o'r cyfnod addysg statudol i gyrsiau ôl-16.

4.17 Adroddodd penaethiaid ac uwch reolwyr ysgolion uwchradd bod partneriaethau newydd wedi ehangu'r dewis o bynciau sydd ar gael i ddysgwyr, yn cynnwys cyrsiau galwedigaethol cyfrwng Cymraeg. Er enghraifft, nododd un ysgol bod clwstwr o dair ysgol uwchradd y sir honno yn rhannu ymarferwyr arbenigol ar draws y gwahanol sefydliadau er mwyn cynnig dewis ehangach o bynciau o fewn cymhwyster Bagloriaeth Cymru.

4.18 Un anhawster a adroddodd dwy o'r tair ysgol wrth gynllunio darpariaeth cyfrwng Cymraeg newydd, yw bod prinder yn nifer yr aseswyr sydd â sgiliau yn yr iaith Gymraeg. Nodwyd bod hon yn broblem fawr yng nghyd-destun cyrsiau galwedigaethol a chyrsiau busnes.

*Ffurfioli prosesau cynllunio*

4.19 Rhoddir pwyslais yn y Strategaeth ar sicrhau bod darpariaeth cyfrwng Cymraeg yn rhan annatod o'r broses gynllunio a chyflwyno darpariaeth yn y cyfnod ôl-16. Mae CSGAau a Fforymau Cyfrwng Cymraeg 14-19 yn ddatblygiadau sydd wedi sicrhau bod prosesau mewn lle i gefnogi cynllunio darpariaeth

Cymraeg. Mae heriau penodol wedi wynebu colegau lle na fu llawer o seilwaith yn draddodiadol i annog darpariaeth cyfrwng Cymraeg a dwyieithog.

4.20 Mae bodolaeth yr Hyrwyddwyr Dwyieithrwydd wedi golygu bod sefydliadau addysg bellach wedi cymryd camau tuag at ffurfioli'r broses o gynllunio darpariaeth cyfrwng Cymraeg. Serch hynny, mae'r cynnydd tuag at ddatblygu cynlluniau gweithredu clir a chadarn ar lefel sefydliadol yn amrywiol. Y colegau gyda'r cynlluniau mwyaf clir a datblygedig yw'r rheiny lle mae swyddogaethau'r Hyrwyddwyr wedi'u hymgorffori neu eu prif ffrydio fel rhan integredig o brosesau cynllunio'r colegau.

*Arweiniad a chynllunio strategol, integredig*

4.21 Mae'r pwynt uchod yn gysylltiedig â chanfyddiad arall a gododd o'r gwaith ar yr Hyrwyddwyr ond sydd hefyd wedi amlygu ei hun yn ystod trafodaethau gyda rhanddeiliaid a chynrychiolwyr ysgolion. Er mwyn i brif ffrydio (neu gynllunio integredig) o'r fath ddigwydd, mae'n hollbwysig bod cefnogaeth lawn gan benaethiaid a thimau uwch reoli sefydliadau er mwyn gyrru datblygiadau. Mae'r dystiolaeth a gasglwyd hyd yma yn awgrymu bod ansawdd yr arweiniad ar bob lefel – yn wleidyddol (lleol a chenedlaethol) ac ar lefel sefydliadol – yn dylanwadu ar ansawdd y cynllunio.  Mae'r Strategaeth, ynghyd â'r prosiectau unigol sy'n ei chefnogi, yn gosod pwyslais ar fecanweithiau a strwythurau cynllunio. Nodwyd gan randdeiliaid ei bod hi'n bwysig sicrhau bod gan yr unigolion perthnasol y sgiliau priodol a'r ymrwymiad i weithredu'r newidiadau sydd eu hangen er mwyn cryfhau trefniadau cynllunio.

> *Ymddengys bod ymrwymiad clir a chryf gan uwch reolwyr yn ffactor bwysig y tu ôl i unrhyw gynnydd (wrth wella cynllunio darpariaeth cyfrwng Cymraeg). Awgryma'r dystiolaeth bod gosod yr iaith Gymraeg a darpariaeth cyfrwng Cymraeg fel blaenoriaeth strategol ar lefel sefydliadol yn gyrru datblygiad darpariaeth cyfrwng Cymraeg.* (Adroddiad yr Adolygiad o'r prosiect Hyrwyddwyr Dwyieithrwydd mewn addysg bellach, tud. 77)

4.22 Mae rhai arweinwyr sefydliadau yn gweld y cysylltiadau ar draws gwahanol weithgareddau a phrosiectau ac yn tynnu'r gwahanol elfennau ynghyd mewn ffordd strategol a phwrpasol. Gwelwyd enghreifftiau yng nghyd-destun yr adolygiad o'r Cynllun Sabothol o benaethiaid yn defnyddio'r cynllun hwnnw fel ffordd o gefnogi cynlluniau datblygu eu hysgolion. Arweiniodd y cyrsiau Sabothol at ddatblygiad darpariaeth cyfrwng Cymraeg newydd mewn pynciau blaenoriaeth.

4.23 Mae'r negeseuon mewn perthynas â chynllunio i gefnogi addysg Gymraeg yn gyson i ryw raddau. Mae penaethiaid, uwch reolwyr a swyddogion awdurdodau addysg yn gytûn bod mwy o gynllunio i gefnogi addysg Gymraeg nag a fu yn y gorffennol. Yr her yw sicrhau bod y cynllunio a'r gweithredu ar draws y gwahanol elfennau sy'n bwydo'r Strategaeth yn integredig ac yn effeithiol.

*Ymateb i'r galw a symbylu galw ôl-14*

4.24 Mae geiriad Nod Strategol 2 yn gydnabyddiaeth nad galw rhieni yw'r prif ddylanwad neu 'yrrwr' yng nghyd-destun addysg a hyfforddiant ôl-statudol. Dysgwyr sy'n gwneud eu dewisiadau eu hunain, gydag ystod eang o opsiynau ar gael iddynt a chyfrwng yr addysg yn un ystyriaeth ymysg llawer o bethau eraill.

4.25 Mae ysgolion a cholegau yn adrodd bod heriau yn gysylltiedig â chynllunio neu ddatblygu darpariaeth cyfrwng Cymraeg newydd ôl-16. Mae arolygon mesur y galw a gynhaliwyd gan sefydliadau addysg bellach yn dangos nad oes yna alw cryf mewn nifer o sefydliadau ar draws Cymru. Yn gyffredinol, gwelir mwy o alw am gyrsiau neu fodiwlau dwyieithog na darpariaeth cyfrwng Cymraeg, canfyddiadau sydd yn ategu data Arolwg Llais y Dysgwr.[27] Yn gysylltiedig â hyn, nododd un uwch reolwr coleg addysg bellach mai'r her fwyaf ar ddiwedd Cyfnod Allweddol 4 yw:

[27] http://wales.gov.uk/statistics-and-research/learner-voice-survey/?lang=cy

*'darbwyllo dysgwyr o bwysigrwydd a manteision parhau gyda [darpariaeth] Cymraeg ac adeiladu ar eu sgiliau'. (Uwch reolwr coleg addysg bellach)*

4.26 Mae Hyrwyddwyr Dwyieithrwydd yn datblygu gwahanol ddulliau o hyrwyddo darpariaeth cyfrwng Cymraeg a symbylu mwy o alw am gyrsiau Cymraeg neu ddwyieithog. Defnyddir modelau rôl, er enghraifft, yn ystod gweithgareddau a digwyddiadau colegau i hybu manteision dwyieithrwydd, gan bwysleisio manteision sgiliau Cymraeg o safbwynt cyflogadwyedd a byd gwaith.

4.27 Mae'r dystiolaeth a gasglwyd hyd yma yn tanlinellu'r angen i ystyried sut y mae cynllunio darpariaeth ôl-14 yn cael ei gefnogi gan ymdrechion i hyrwyddo darpariaeth yn rhagweithiol a symbylu galw ymysg dysgwyr am addysg cyfrwng Cymraeg. Yn wir, noda'r Strategaeth y *'dylai cynllunio rhagweithiol ar sail gwella'r cyfle i fanteisio ar ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg a dwyieithog fod yn egwyddor arweiniol'.*

**Cynnydd mewn perthynas â Deilliant 3**

4.28 Mae Deilliant 3 y Strategaeth yn anelu at *'[f]wy o fyfyrwyr yn astudio ar gyfer cymwysterau drwy gyfrwng y Gymraeg'*. Noda Adroddiadau Blynyddol y Strategaeth dros y ddwy flynedd diwethaf bod cynnydd yn erbyn y targedau sy'n gysylltiedig â'r deilliant hwn yn cael ei effeithio gan niferoedd cynyddol y dysgwyr sy'n astudio pynciau galwedigaethol, lle mae prinder darpariaeth cyfrwng Cymraeg.[28] Mae hwn yn ganlyniad i weithrediad y Mesur Dysgu a Sgiliau (Cymru) 2009. Mae'r twf yn nifer y dysgwyr sy'n astudio cyrsiau BTEC, yn arbennig, yn ffactor sy'n dylanwadu ar y data diweddaraf. Gwelwyd cwymp rhwng 2012 a 2013 yng nghanran y dysgwyr a gofrestrwyd ar gyfer TGAU Cymraeg Iaith Gyntaf a gofrestrwyd ar gyfer o leiaf dau bwnc drwy gyfrwng y Gymraeg: 81.6 y cant yn 2013 o gymharu â

[28] http://wales.gov.uk/topics/educationandskills/publications/guidance/wmesreport/?lang=cy

85.3 y cant yn 2012. Targedau'r Strategaeth yw 84 y cant erbyn 2015 ac 88 y cant erbyn 2020.

**Cynnydd mewn perthynas â Deilliant 4**

4.29 Mae Deilliant 4 y Strategaeth, yn anelu at *'[f]wy o fyfyrwyr 16-19 oed yn astudio pynciau drwy gyfrwng y Gymraeg, mewn ysgolion, colegau a dysgu seiliedig ar waith'*. Ar y cyfan, mae'r dystiolaeth a gyflwynir yn yr Adroddiad Blynyddol yn dangos darlun cadarnhaol mewn perthynas â'r deilliant hwn. Mae targed 2020 ar gyfer ysgolion eisoes wedi'i gyrraedd a gwelwyd cynnydd yn erbyn y gwaelodlinau ar gyfer addysg bellach a dysgu yn y gweithle. Nid yw'n glir, fodd bynnag, a fydd targedau'r Strategaeth ar gyfer addysg bellach a dysgu yn y gweithle yn cael eu cyrraedd erbyn 2015. Ceir trafodaeth fanylach am hynny yn adroddiad gwerthuso'r cynllun Hyrwyddwyr Dwyieithrwydd.

**<u>Nod strategol 3</u>**

| |
|---|
| **Nod Strategol 3**: Sicrhau bod pob dysgwr yn datblygu ei sgiliau iaith yn y Gymraeg i'w botensial llawn ac annog dilyniant ieithyddol cadarn o un cyfnod addysg a hyfforddiant i'r nesaf. |

*Cynnydd mewn sgiliau iaith Gymraeg*

4.30 Casglwyd peth data ansoddol yn ystod ymweliadau ag ysgolion a chyfweliadau gyda rhanddeiliaid cenedlaethol mewn perthynas â datblygiad sgiliau iaith Gymraeg dysgwyr. Mae'r dystiolaeth wedi ein galluogi i adnabod cyfres o ganfyddiadau cynnar sydd angen ystyriaeth fwy manwl yn ystod gweddill yr astudiaeth.

4.31 Cydnabu ymarferwyr bod lle i wella datblygiad sgiliau iaith ymysg dysgwyr. Gan gymryd golwg tymor hir, cyfeiriodd athrawon cynradd ac uwchradd at y ffaith bod ansawdd y sgiliau iaith a ddatblygir drwy'r gyfundrefn addysg yn hollbwysig i gefnogi nod *Iaith fyw: iaith byw* o gynyddu defnydd o'r iaith ar draws Cymru.

4.32 Cyfeiriodd sawl pennaeth a rhanddeiliaid cenedlaethol at yr heriau sylfaenol sy'n wynebu ysgolion. Nododd un:

> *'Yr hyn sydd gyda ni yw system sy'n ceisio datblygu pobl ifanc ddwyieithog lle mae cyfran uchel ohonynt yn dod o gefndiroedd di-Gymraeg ac yn byw mewn cymunedau lle nad oes yna gyfleoedd 'naturiol' i ddefnyddio'r iaith. Weithiau mae angen camu nôl ac atgoffa'n hunain am y disgwyliadau sylweddol sydd ar ysgolion Cymraeg.' (Cynrychiolydd sefydliad cenedlaethol)*

*Safonau iaith a dilyniant ieithyddol*

4.33 Mynegwyd rhai pryderon gan benaethiaid am y diffyg cynnydd mewn sgiliau iaith wrth i ddisgyblion drosglwyddo rhwng ysgolion cynradd ac uwchradd. Awgrymodd penaethiaid nad yw'r ddarpariaeth Cymraeg (iaith gyntaf) ym mlwyddyn 7 yn *'gyrru cynnydd'* yn ddigonol ond yn hytrach yn canolbwyntio i raddau ar ddarpariaeth sy'n galluogi disgyblion â sgiliau is i ddal i fyny. Clywyd enghreifftiau gan ddisgyblion bod gwersi blwyddyn 7 yn ail–gyflwyno themâu neu gynnwys gwersi o'r ysgol gynradd. Adroddodd un ysgol uwchradd bod eu clwstwr wedi ceisio cysoni lefelau disgyblion yn y pynciau craidd yn dilyn asesiadau athrawon ar ddiwedd cyfnod allweddol 2.

4.34 Er bod rhai arwyddion o gynnydd, mae'r dystiolaeth yn codi cwestiynau ehangach ynghylch lefel y cydweithio a chyfathrebu rhwng ysgolion cynradd ac uwchradd wrth gefnogi sgiliau iaith Gymraeg yn ystod y cyfnod trawsnewidiol hwn. Nododd rhai ymarferwyr bod lle i gryfhau'r arweiniad gan awdurdodau lleol i ysgolion ar sut i wella'r broses bontio rhwng Cyfnodau Allweddol 2 a 3.

4.35 Nododd mwyafrif yr ymarferwyr uwchradd a chynradd bryderon bod defnydd o'r iaith ymysg dysgwyr yn gymdeithasol ac mewn sefyllfaoedd anffurfiol yn gostwng wrth iddynt symud ar hyd Cyfnodau Allweddol 3 a 4. O ganlyniad, nid yw safonau iaith cyfran sylweddol o ddysgwyr, ym marn nifer o ymarferwyr, yn datblygu i'r graddau disgwyliedig. Cyflwyna hyn heriau i ysgolion,

yn enwedig o ystyried y nod o sicrhau bod pob dysgwr yn datblygu ei sgiliau iaith i'w 'botensial llawn'.

4.36 Nododd un rhanddeiliad nad oedd yn credu bod digon o gyfleoedd i ddisgyblion ymarfer eu sgiliau llafar iaith Gymraeg mewn ysgolion. Awgrymwyd bod hyn yn fwy o broblem mewn ysgolion lle y mae cyfran helaeth o ddisgyblion o deuluoedd di-Gymraeg ac nad ydynt yn cael y cyfle i ddefnyddio'r Gymraeg ar lafar yn y cartref.

**Cynnydd mewn perthynas â Deilliant 2**

4.37 Mae'r Strategaeth yn rhoi pwyslais ar gefnogi dilyniant mewn addysg cyfrwng Cymraeg. Nodir bod sicrhau cyfleoedd ar gyfer *'dilyniant ieithyddol addas yn un o gonglfeini'r Strategaeth'*. Fel rhan o'r CSGAau, mae awdurdodau lleol yn gosod targedau ar gyfer gwella dilyniant ieithyddol rhwng cyfnodau addysg, gyda sylw arbennig yn cael ei roi i ddilyniant rhwng cyfnodau allweddol 2 a 3. Mae'r data a gyflwynir yn Adroddiad Blynyddol 2013-14 mewn perthynas â Deilliant 2 y Strategaeth yn tanlinellu'r her mewn gwahanol ardaloedd o Gymru. Er enghraifft, yng nghonsortiwm y de-orllewin a chanolbarth Cymru roedd 430 o ddysgwyr a aseswyd yn y Gymraeg ym Mlwyddyn 6 yn 2010 wedi newid i ddilyn rhaglen astudio ail iaith erbyn iddynt gyrraedd Blwyddyn 9 yn 2013 - mae hyn yn cyfateb i oddeutu 18 y cant o ddysgwyr yn newid cyfrwng addysgu yn y rhanbarth honno dros gyfnod o dair blynedd (tud.30).[29]

**Cynnydd mewn perthynas â Deilliant 5**

4.38 Mae Deilliant 5 y Strategaeth, sy'n cyfeirio at 'sgiliau iaith uwch yn y Gymraeg' hefyd yn cynnig ffordd o fesur cynnydd yn erbyn Nod Strategol 3 ac yn berthnasol i'r drafodaeth yn yr adrannau blaenorol.

---

[29] http://wales.gov.uk/docs/dcells/publications/140711-welsh-education-strategy-report-cy1.pdf

4.39 Dengys Adroddiad Blynyddol 2012-13 bod cwymp wedi bod yn nifer a chanran y myfyrwyr sydd yn astudio Cymraeg Safon Uwch Iaith Gyntaf ac Ail Iaith.[30] Cydnabydda'r Gweinidog Addysg a Sgiliau yn Adroddiad Blynyddol 2012-13 bod cyrraedd y targedau a osodwyd yn heriol:

> *'Mae Deilliant 5 sydd â'r nod o gynnal nifer y dysgwyr sy'n dewis Cymraeg iaith gyntaf neu Gymraeg ail iaith Safon Uwch yn parhau i beri pryder'.*

4.40 Mae gweithredu'r Mesur Dysgu a Sgiliau (Cymru) 2009, sy'n cynyddu nifer y dewisiadau posibl ar gyfer myfyrwyr 16-19, yn enghraifft o ffactor allanol a allai ddylanwadu (yn anfwriadol) ar gynnydd yn erbyn deilliannau'r Strategaeth, gan gynnwys Deilliant 5. Bwriedir cynnal ymchwil pellach i ddeall dylanwad gweithredu'r Mesur ar nodau'r Strategaeth a chaiff y canfyddiadau eu cyflwyno yn yr adroddiad terfynol.

4.41 Yn 2012 comisiynodd Llywodraeth Cymru ddau adolygiad a gyflwynodd argymhellion sy'n berthnasol i Ddeilliant 5.[31] Cyhoeddwyd adroddiad *Un iaith i bawb,* adolygiad o Gymraeg ail iaith yng Nghyfnodau Allweddol 3 a 4, ym Medi 2013. Amlinellodd yr adroddiad hwn gyfres o argymhellion er mwyn ceisio mynd i'r afael â safonau a chyrhaeddiad isel yn y pwnc.[32] Ers cyhoeddi'r adroddiad hwnnw, penododd y Gweinidog Addysg a Sgiliau yr Athro Graham Donaldson i gynnal adolygiad o drefniadau cwricwlwm ac asesu yng Nghymru. Bydd yr adolygiad hwnnw yn mynd i'r afael ag argymhellion *Un iaith i bawb.* Fel rhan o'r rhaglen ymchwil hon byddwn yn ystyried cynnydd wrth weithredu

---

[30] Bu cwymp yn nifer y cofrestriadau Iaith Gyntaf o 346 yn 2009 i 303 yn 2012, yn cynrychioli cwymp o 6.7 y cant i 5.6 y cant o gofrestriadau TGAU Cymraeg Iaith Gyntaf, ddwy flynedd yn gynharach. Bu cwymp o 595 i 556 yn y cofrestriadau Ail iaith rhwng 2009-12 yn cynrychioli cwymp o 3.0 y cant i 2.4 y cant o gofrestriadau TGAU Cymraeg Ail Iaith, ddwy flynedd yn gynharach.

[31] Ym mis Gorffennaf 2012, sefydlodd y cyn-Weinidog Addysg a Sgiliau, Leighton Andrews AC, grŵp i adolygu Cymraeg ail iaith yng Nghyfnodau Allweddol 3 a 4 ac i ystyried sut i godi safonau a lefelau cyrhaeddiad yn y pwnc. Hefyd ym mis Gorffennaf 2012, cyhoeddodd y cyn-Weinidog ei fod am sefydlu grw□p i adolygu maes Cymraeg i Oedolion.

[32] http://wales.gov.uk/docs/dcells/publications/130926-review-of-welsh-second-lan-cy.pdf

rhai o’r prosiectau sy’n rhan o’r Cynllun Gweithredu Cymraeg ail iaith.

4.42 Yng Ngorffennaf 2013 cyhoeddwyd *Codi Golygon,* adolygiad o Gymraeg i Oedolion. Cyflwynodd yr adroddiad argymhellion gyda’r nod o sicrhau bod cyfleoedd digonol i bobl ddod yn siaradwyr Cymraeg. Ni fydd y gwerthusiad hwn yn edrych yn fanwl ar y maes hwn; fodd bynnag, bydd yr adroddiad terfynol yn ystyried cynnydd wrth weithredu argymhellion yr adolygiad a’r berthynas rhyngddynt a gweithrediad y Strategaeth.

## Nod Strategol 4

**Nod Strategol 4**: Sicrhau gweithlu addysg cyfrwng Cymraeg wedi’i gynllunio sy’n darparu nifer ddigonol o ymarferwyr ar gyfer pob cyfnod addysg a hyfforddiant, ac sy’n meddu ar sgiliau iaith uchel yn y Gymraeg a chymhwysedd mewn methodolegau addysgu.

4.43 Mae’r gwaith maes a gwblhawyd hyd yma wedi casglu tystiolaeth mewn perthynas â:

- dulliau o gefnogi datblygiad y gweithlu o fewn ysgolion;
- heriau yn gysylltiedig â recriwtio ymarferwyr â sgiliau Cymraeg; a
- y Cynllun Sabothol i ddatblygu sgiliau Cymraeg ymarferwyr addysg.

Dylid cydnabod fod y dystiolaeth a gyflwynir mewn perthynas â Nod Strategol 4 yn seiliedig ar ganfyddiadau a phrofiadau gwahanol grwpiau o ymatebwyr yn bennaf. Bydd yr adroddiad terfynol yn cynnig cyfle i gymharu’r dystiolaeth ansoddol hon gyda data gweinyddol a thystiolaeth ehangach sy’n gysylltiedig â’r gweithlu. Ceir cyfeiriad at y math o ddata meintiol sydd ar gael mewn perthynas â’r gweithlu addysg cyfrwng Cymraeg yn Adran 5.12.

*Cefnogi sgiliau'r gweithlu presennol*

4.44 Mae'r dystiolaeth yn dangos bod ysgolion a sefydliadau addysg bellach yn ymwybodol bod heriau ynghlwm â sicrhau gweithlu sydd yn medru darparu ystod eang o bynciau drwy gyfrwng y Gymraeg i safon uchel. Cynigiodd uwch reolwyr ysgolion nifer o enghreifftiau o'r dulliau maent yn eu defnyddio i wneud y defnydd gorau o sgiliau'r gweithlu presennol. Mae'r dulliau hyn yn cynnwys:

- uwchradd: hyfforddi athrawon o'r adran Gymraeg i fedru addysgu dyniaethau i Flwyddyn 7. Yn ogystal â defnyddio'r gweithlu presennol mewn ffordd hyblyg, mae'n atgyfnerthu patrymau iaith ar draws ystod o bynciau'r cwricwlwm.
- uwchradd: cydlynwyr llythrennedd ysgolion yn cynnig hyfforddiant yn fewnol i staff yr ysgol ar ddefnydd iaith.
- cynradd ac uwchradd: sesiynau gloywi iaith i staff i fagu hyder er mwyn cynnig peth darpariaeth yn y Gymraeg neu'n ddwyieithog – sesiynau wedi'u trefnu yn fewnol gan ysgolion.
- bob sector: penaethiaid yn annog ymarferwyr i fynychu'r Cynllun Sabothol.

*Heriau*

4.45 Adrodda penaethiaid a swyddogion awdurdodau lleol bod y nifer gyfyngedig o ymarferwyr gyda sgiliau iaith Gymraeg yn ei gwneud hi'n anodd penodi ymarferwyr o safon i rai swyddi. Nododd awdurdodau lleol bod penodi penaethiaid wedi bod yn broblem mewn sawl ardal, gydag anawsterau mawr wrth geisio penodi penaethiaid i rai ysgolion cynradd Cymraeg mewn ardaloedd gwledig. Yn y sector uwchradd cyfrwng Cymraeg, adroddwyd bod prinder athrawon gwyddoniaeth a Saesneg.

4.46 Nododd penaethiaid ysgolion uwchradd a chynradd bod safon iaith Gymraeg rhai ymgeiswyr yn achosi pryder.

*'Mae'r pwll yn fach ac o fewn hynny weithiau mae ansawdd iaith yn culhau'r dewis ymhellach.' (Pennaeth ysgol uwchradd)*

4.47 Mae hyn yn tanlinellu'r angen i sicrhau y rhoddir sylw i safon iaith mewn cyrsiau hyfforddiant cychwynnol i athrawon ac ymyrraeth barhaus i godi safon iaith ymarferwyr sydd eisoes o fewn y gyfundrefn addysg.

*Y Cynllun Sabothol*

4.48 Casglwyd barn cyfranogwyr y Cynllun, uwch-reolwyr ysgolion a cholegau ac awdurdodau lleol fel rhan o'r adolygiad o'r Cynllun Sabothol, gyda'r nod o ddeall traweffaith y Cynllun ar allu ymarferwyr i addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg ar ôl iddynt ddychwelyd i'w ysgolion a cholegau.[33] Daethpwyd i'r casgliad bod y Cynllun Sabothol wedi hybu sgiliau iaith Gymraeg a meithrin hyder yr ymarferwyr hynny a fynychodd gyrsiau.

4.49 Noda'r adroddiad nifer o ffactorau cadarnhaol sydd wedi cyfrannu at effeithiolrwydd y Cynllun. Mae cyfranogwyr a'u rheolwyr llinell yn y sefydliadau o'r farn bod yr hyfforddiant o safon uchel. Mae Llywodraeth Cymru wedi adnabod cyfleoedd i addasu a mireinio'r Cynllun, gan gyflwyno dulliau newydd o ddarparu ynghyd â chyrsiau ar gyfer gwahanol grwpiau targed (e.e. cwrs lefel mynediad ar gyfer cynorthwywyr dosbarth). Yn hynny o beth, mae'r Cynllun Sabothol wedi esblygu ac ehangu ei apêl. Mae hefyd yn gydnabyddiaeth o'r angen i ymateb i ofynion y gweithlu ar hyd y gwahanol gyfnodau addysg a hyfforddiant mewn gwahanol ffyrdd a thrwy wahanol fodelau o ddarpariaeth.

4.50 Fodd bynnag, awgryma'r adroddiad bod angen tynhau ar y broses o gynllunio a recriwtio i'r Cynllun Sabothol, gan fynnu bod awdurdodau a chonsortia rhanbarthol yn gwneud cyswllt rhwng y rheiny sydd yn mynychu'r cyrsiau a sut disgwylir iddynt gyfrannu tuag at flaenoriaethau strategol lleol.

---

[33] Llywodraeth Cymru (Ionawr 2014), *Gwerthusiad o'r Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg: Adolygiad o'r Cynllun Sabothol Iaith Gymraeg ar gyfer ymarferwyr addysgol: profiad cyfranogwyr 2011-2012*

4.51 Tanlinella’r uchod yr angen am well cydlyniad rhwng y broses gynllunio yn lleol a’r rhaglenni a weithredir yn enw’r Strategaeth yn ehangach.

## Nod Strategol 5

**Nod Strategol 5**: Gwella’r dulliau cymorth canolog ar gyfer addysg a hyfforddiant cyfrwng Cymraeg.

4.52 Rhoddir sylw yn yr is-adrannau dilynol i ddwy elfen sy’n berthnasol i’r nod strategol hwn, sef cymwysterau cyfrwng Cymraeg a’r rhaglen gomisiynu adnoddau a adolygwyd fel rhan o’r rhaglen ymchwil.

*Cymwysterau cyfrwng Cymraeg a dwyieithog*

4.53 Ystyriwyd argaeledd cymwysterau cyfrwng Cymraeg fel rhan o’r *Adolygiad o Gymwysterau ar gyfer pobl ifanc 14 i 19 yng Nghymru* (Llywodraeth Cymru, 2012) a gyhoeddwyd ym mis Tachwedd 2012.[34] Casglwyd yn yr adroddiad bod angen *‘sicrhau llwybrau dilyniant clir drwy gyfrwng y Gymraeg*’ ac y dylai cymwysterau TGAU a Safon Uwch fod ar gael yn y Gymraeg a’r Saesneg ar yr un pryd erbyn 2015. Nododd yr adroddiad fod prinder staff, aseswyr a chymedrolwyr wedi cyfrannu at ddiffyg dewis cymwysterau galwedigaethol a bod angen cymorth parhaus ar gyrff dyfarnu er mwyn parhau i ehangu darpariaeth a dewisiadau i ddysgwyr.

4.54 Ategwyd y negeseuon uchod yn ystod y gwaith maes a gwblhawyd hyd yma fel rhan o’r gwerthusiad hwn. Y farn ymysg ysgolion a rhanddeiliaid yw bod sicrhau'r un cyfleoedd i ddysgwyr yn y Gymraeg a’r Saesneg yn hanfodol, yn enwedig o ystyried y pwyslais a roddir ar gyfleoedd cyfartal gan Lywodraeth Cymru, gan gynnwys yn y Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg.

---

[34] Llywodraeth Cymru (2012a), *Adolygiad o Gymwysterau ar gyfer pobl ifanc 14 i 19 yng Nghymru* http://wales.gov.uk/docs/dcells/publications/121127reviewofqualificationscy.pdf

4.55 Nododd cynrychiolwyr ysgolion uwchradd bod cymwysterau galwedigaethol yn cyflwyno heriau penodol. Cydnabu’r cynrychiolwyr hyn bod angen blaenoriaethu datblygiadau er mwyn sicrhau bod y cymwysterau newydd a gyflwynir yn debygol o gynnig y gwerth gorau i ddysgwyr. Er mwyn cefnogi hyn, mae ysgolion a cholegau yn casglu gwybodaeth am y galw am gyrsiau neu gymwysterau galwedigaethol gan ddysgwyr a all fwydo’r broses o adnabod meysydd blaenoriaeth. Adroddwyd bod cydweithio agosach rhwng ysgolion a cholegau wedi galluogi adnabod màs critigol o alw gan ddysgwyr mewn rhai pynciau sydd yn cynnig sail ar gyfer datblygu cymwysterau dwyieithog newydd.

*Adnoddau cyfrwng Cymraeg a dwyieithog*

4.56 Cynhaliwyd *Adolygiad o Ddefnydd ac Ansawdd yr Adnoddau a Gomisiynwyd gan Uned y Gymraeg mewn Addysg, Llywodraeth Cymru* (Adolygiad o Adnoddau) fel rhan o’r rhaglen ymchwil i gefnogi’r gwerthusiad o’r Strategaeth. Cwblhawyd arolwg o ymarferwyr cynradd, uwchradd ac addysg bellach gan holi eu barn ar y dewis o adnoddau ar draws y gwahanol bynciau, dulliau rhannu gwybodaeth ac ansawdd.

4.57 Dengys y dystiolaeth o’r adolygiad fod gan ymarferwyr farn gymysg ynglŷn â’r dewis o adnoddau cyfrwng Cymraeg sydd ar gael. Maent yn cydnabod bod y dewis o adnoddau wedi datblygu’n sylweddol dros y blynyddoedd ac y gwelwyd gwelliannau yn ansawdd adnoddau ac ehangder y dewis. Serch hynny, adroddwyd bod prinder dewis mewn nifer o feysydd: nodwyd prinder adnoddau ar gyfer y sector addysg bellach, diffyg adnoddau rhyngweithiol a diffyg dewis eang o adnoddau cyfrwng Cymraeg mewn rhai pynciau ar gyfer Cyfnod Allweddol 3.

4.58 Awgryma casgliadau’r Adolygiad o Adnoddau bod lle i symleiddio’r broses o rannu gwybodaeth ar adnoddau. Roedd ymarferwyr o’r farn y byddai un ffynhonnell gynhwysfawr ganolog

o wybodaeth ar yr holl adnoddau addysgol cyfrwng Cymraeg sydd ar gael yn fuddiol.

4.59 Cesglir bod y rhaglen gomisiynu adnoddau yn gyfraniad gwerthfawr i ymdrechion i *'wella'r dulliau cymorth canolog ar gyfer addysg a hyfforddiant cyfrwng Cymraeg'*. Tra bod y broses o adnabod yr anghenion, comisiynu prosiectau a chyhoeddi adnoddau yn cymryd amser, mae'r rhaglen serch hynny yn caniatáu i'r Gangen Comisiynu Adnoddau i ymateb i flaenoriaethau strategol cenedlaethol.

4.60 Mae'r dystiolaeth a gasglwyd drwy'r adolygiad yn dangos yn glir bod galw parhaus am raglen gomisiynu adnoddau addysgol cyfrwng Cymraeg a dwyieithog i ddiwallu anghenion ymarferwyr a dysgwyr. Cesglir bod y rhaglen gomisiynu yn rhan ganolog o'r gwaith i gefnogi Nod Strategol 5.

*Cymorth canolog gan awdurdodau lleol*

4.61 Nododd ysgolion bod y gefnogaeth sydd ar gael ar lefel leol gan swyddogion gwella ysgolion wedi lleihau. Adroddwyd hefyd bod ysgolion wedi profi anawsterau wrth gael mynediad at gymorth gan seicolegwyr addysg ac arbenigwyr ymddygiad sy'n medru gweithio yn y Gymraeg. Mae'r rhain yn faterion y byddwn yn rhoi sylw pellach iddynt yn ystod yr astudiaethau ardal sydd i ddilyn.

## Nod Strategol 6

| |
|---|
| **Nod Strategol 6:** Cyfrannu at feithrin ac atgyfnerthu sgiliau iaith yn y Gymraeg mewn teuluoedd ac yn y gymuned. |

4.62 Cytunwyd na fyddai'r gwerthusiad yn rhoi sylw manwl i Nod Strategol 6. Ers cyhoeddi'r Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg cyhoeddwyd *Iaith fyw: iaith byw*, sy'n amlinellu cyfres o weithredoedd i annog a chefnogi'r Gymraeg o fewn teuluoedd a chryfhau'r Gymraeg o fewn cymunedau. Cyhoeddwyd hefyd

*Fframwaith Gwerthuso Strategaeth y Gymraeg* sydd yn cynnig sylfaen ar gyfer ymchwilio, casglu data a dadansoddi yn y dyfodol er mwyn gwerthuso'r Strategaeth.[35] Disgwylir y bydd ymchwil pellach yn ystyried traweffeithiau Strategaeth y Gymraeg mewn manylder.

*Trosolwg o'r dystiolaeth a gasglwyd*

4.63 Mae'r astudiaethau ardal yn cynnig cyfle i gasglu barn ar rai materion sy'n berthnasol i'r nod hwn. Isod ceir crynodeb o'r pwyntiau a gyflwynwyd gan ymarferwyr a dysgwyr yn ystod ymweliadau ag ysgolion cynradd ac uwchradd.

4.64 Cydnabu penaethiaid ac ymarferwyr bod *'cenhadaeth ysgolion Cymraeg yn mynd y tu hwnt i gynnig addysg cyfrwng Cymraeg o safon'* (Pennaeth ysgol uwchradd). Adroddwyd yn ystod yr ymweliadau ag ysgolion bod gwreiddio'r iaith Gymraeg fel rhan o hunaniaeth disgyblion ac annog defnydd o'r Gymraeg y tu allan i sefyllfaoedd ffurfiol yn galw am ymdrech ychwanegol ar ran athrawon. Diddorol nodi bod ymarferwyr mewn gwahanol ardaloedd yn cyfeirio at y 'cyfrifoldeb' sydd ar ysgolion i annog defnydd o'r iaith Gymraeg ar y buarth a thu hwnt i furiau'r ysgol. Mae'r Strategaeth yn cydnabod yr angen i sgiliau iaith Gymraeg gael eu hatgyfnerthu yn y gymuned neu gan deuluoedd. Fodd bynnag, nid yw'n cyfeirio yn uniongyrchol at *gyfrifoldeb* ysgolion i sicrhau hyn. Nododd un pennaeth ei fod yn amau a yw polisi cenedlaethol yn cydnabod yn ddigonol y *'gwerth ychwanegol y mae athrawon ysgolion Gymraeg yn [ei ddarparu]'* er mwyn cefnogi'r iaith Gymraeg.

4.65 Mae'r sylwadau yn codi cwestiynau diddorol ynghylch swyddogaethau ysgolion a cholegau wrth gynnig cyfleoedd i sicrhau defnydd o'r iaith o fewn cymunedau. Mewn rhai ardaloedd sy'n bennaf ddi-Gymraeg, yr ysgol i bob pwrpas yw'r

[35] http://wales.gov.uk/docs/caecd/research/130225-welsh-language-strategy-evaluation-framework-cy.pdf

‘gymuned Gymraeg’. Adrodda penaethiaid mewn un ardal o Gymru bod *‘ychydig iawn o weithgareddau allgyrsiol neu gymdeithasol’* drwy gyfrwng y Gymraeg (pennaeth ysgol gynradd). Oherwydd hyn, yr ysgol sy’n mynd ati i gynnig clybiau ôl-ysgol a gweithgareddau allgyrsiol i annog defnydd o’r Gymraeg mewn cyd-destunau anffurfiol.

4.66 Mae’r cysylltiadau rhwng ysgolion a mudiadau allanol gan gynnwys yr Urdd, Mentrau Iaith a’r Clwb Ffermwyr Ifanc yn cynnig cyfleoedd i ddangos bod y Gymraeg yn berthnasol mewn gwahanol gyd-destunau cymdeithasol a diwylliannol. Yn seiliedig ar y dystiolaeth a gasglwyd hyd yma, mae ysgolion yn awyddus i feithrin y cysylltiadau hyn er mwyn cynnig ystod ehangach o gyfleoedd a gweithgareddau cymdeithasol i ddysgwyr yn y Gymraeg.

4.67 Yn olaf, nododd ymarferwyr ysgolion uwchradd bod y cyd-destun a chyfleoedd gwaith lle mae’r Gymraeg yn bwysig yn ffactor sy’n dylanwadu ar y tebygolrwydd y bydd pobl ifanc yn cynnal a defnyddio’u sgiliau iaith Gymraeg ar ôl iddynt gwblhau eu haddysg statudol. Tanlinellodd un pennaeth bod angen cryfhau’r cyswllt rhwng addysg Gymraeg a’r byd gwaith er mwyn sicrhau bod y Gymraeg yn cael ei gweld fel *‘arf o ran cyflogadwyedd’*.

4.68 Er na fydd sylw manwl yn cael ei roi i’r nod hwn, byddwn yn ymchwilio’r materion uchod ymhellach yn ystod yr ymweliadau ag ysgolion a cholegau.

# 5 Casgliadau interim

5.1 Mae'r bennod hon yn crynhoi'r casgliadau a amlygwyd drwy'r broses ymchwil hyd yma. Mae'r casgliadau yn seiliedig ar gyfres o themâu a materion allweddol sydd wedi codi yn gyson wrth gasglu tystiolaeth i gefnogi'r gwerthusiad. Cynigiwn ddehongliad a chasgliadau yr ymchwilwyr ar y dystiolaeth a gasglwyd, gan gyflwyno hefyd gwestiynau i'w hymchwilio a'u profi ymhellach yn ystod gweddill y rhaglen ymchwil.

**Dylanwad y Strategaeth**

5.2 Nid yw'r dystiolaeth yn ein galluogi i ddod i gasgliadau terfynol ar ddylanwad y Strategaeth yn yr adroddiad hwn. Fodd bynnag, mae'r ymchwil hyd yma yn dangos dylanwad y Strategaeth mewn sawl ffordd, gan gynnwys:

- ffurfioli prosesau cynllunio ar lefel leol;
- canolbwyntio ar ddefnydd y Grant y Gymraeg mewn Addysg i gefnogi gweithrediad y Strategaeth;
- annog cydweithio rhwng sefydliadau i gefnogi darpariaeth cyfrwng Cymraeg; a
- chefnogi datblygiad isadeiledd addysg cyfrwng Cymraeg, er enghraifft:
    - rhaglenni i ddatblygu'r gweithlu;
    - rhaglen gomisiynu adnoddau cyfrwng Cymraeg; a
    - chefnogi sgiliau iaith yn y gweithle.

5.3 Tra bod y Strategaeth wedi arwain at ystod eang o weithredoedd sy'n cefnogi ysgolion a datblygiad yr isadeiledd addysg, awgryma'r dystiolaeth nad yw'r Strategaeth yn gymaint o flaenoriaeth i sefydliadau â rhai 'gyrrwyr polisi' eraill. Mae'r gyfundrefn addysg yn gymhleth, wrth gwrs, ac mae amryw ffactorau yn dylanwadu arni, gan gynnwys polisïau cyffredinol y

system addysg genedlaethol; trefniadau (a chyfyngiadau) cyllidol; blaenoriaethau gwleidyddol lleol; disgwyliadau rhieni a llywodraethwyr; a dylanwad penaethiaid sefydliadau a chyrff llywodraethu. Mae'r ffactorau hyn yn effeithio ar ysgolion cyfrwng Cymraeg a dwyieithog cymaint ag ar ysgolion cyfrwng Saesneg.

### Arweiniad strategol

5.4 Mae arweiniad cadarn gan unigolion ac uwch-dimau rheoli yn hollbwysig i gefnogi prosesau cynllunio a gweithredu effeithiol. Un cwestiwn canolog sy'n codi yw faint o berchnogaeth sydd o'r Strategaeth ymysg:

- swyddogion ar draws Adran Addysg a Sgiliau Llywodraeth Cymru (h.y. nid yn unig swyddogion Uned y Gymraeg)
- uwch swyddogion yr awdurdodau lleol a chonsortia
- penaethiaid ysgolion a cholegau.

5.5 Mae'r cyfrifoldeb am lunio, goruchwylio a monitro'r Strategaeth ar lefel bolisi (genedlaethol) yn glir. Bwriedir rhoi ystyriaeth bellach i'r mater o arweiniad (mewn perthynas â gweithredu amcanion y Strategaeth) ar lefel weithredol a sefydliadol yn ystod gwaith maes fel rhan o'r astudiaethau ardal ac yn ystod trafodaethau pellach gyda rhanddeiliaid cenedlaethol. Enwir cyrff arweiniol yn rhaglen weithredu'r Strategaeth ac mae'n bwysig profi i ba raddau y mae'r cyrff hyn yn glir ynghylch eu rolau a'u cyfrifoldebau mewn perthynas â'r amcanion strategol.[36]

### Atebolrwydd


5.6 Mae'r CSGAau wedi creu fframwaith cynllunio a monitro mwy cadarn a system newydd o atebolrwydd rhwng awdurdodau lleol a Llywodraeth Cymru. Bydd y trefniadau newydd yn arwain at ragor o graffu ar gynlluniau awdurdodau i ddatblygu addysg

[36] Gweler tudalen 27 y Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg http://wales.gov.uk/docs/dcells/publications/100420welshmediumstrategycy.pdf

Gymraeg, yn ogystal â gweithrediad y cynlluniau hyn. Mae'r ffaith bod gan Weinidogion y pŵer i ymyrryd a mynnu gwelliannau i'r CSGAau yn ffurfioli'r broses. Mae Llythyr Blaenoriaethau'r Gweinidog Addysg a Sgiliau i'r sector addysg bellach yn datgan disgwyliadau clir ar golegau ac yn ychwanegu at 'fframwaith atebolrwydd'. Mae'n ddyddiau cynnar o safbwynt gweithrediad y gyfundrefn gynllunio newydd ac mae ei gallu i sicrhau atebolrwydd eto i'w brofi yn llawn.

5.7 Cyfeirir yn adran 5.6, uchod, at atebolrwydd awdurdodau lleol i Lywodraeth Cymru. Ceir amrywiaeth o linellau atebolrwydd eraill mewn perthynas â darpariaeth addysg cyfrwng Cymraeg a gweithrediad y Strategaeth. Mae ffigur 3 yn cyflwyno trosolwg o'r rhain. Cwestiwn i'w ystyried yng nghyd-destun yr adroddiad terfynol yw a yw'r llinellau atebolrwydd hyn yn ddigon grymus i sicrhau bod cynlluniau cadarn mewn lle i wireddu'r twf mewn addysg Gymraeg sy'n ganolog i weledigaeth y Strategaeth.

**Ffigur 3: Atebolrwydd mewn perthynas â gweithrediad y Strategaeth: cysylltiadau rhwng Llywodraeth Cymru, cyrff cynllunio addysg, darparwyr a'r cyhoedd**



**Cynllunio darpariaeth**

5.8 Dengys y dystiolaeth bod y cynnydd yn erbyn deilliannau a thargedau'r Strategaeth wedi bod yn arafach na'r disgwyl hyd yma. Serch hynny, adrodda rhanddeiliaid bod bodolaeth y deilliannau a'r gofyniad ar awdurdodau lleol i gynllunio darpariaeth mewn ffordd sy'n cefnogi'r deilliannau cenedlaethol wedi bod yn werthfawr wrth gefnogi trefniadau cynllunio mwy systematig.

5.9 Un cwestiwn i'w holi wrth edrych tua'r dyfodol yw a fydd y camau a gymerir i wella prosesau cynllunio darpariaeth cyfrwng Cymraeg yn ddigonol i sicrhau twf ar y raddfa a ddymunir gan Lywodraeth Cymru. Byddai gofyn i awdurdodau lleol gytuno targedau heriol yn eu CSGAau i gyrraedd targedau 2020. Mae'n bosibl na fyddai cyflwyno targedau heriol o'r fath yn gwbl gydnaws gyda'r egwyddor o gynllunio darpariaeth ar sail 'ymateb i'r galw gwybodus ymhlith rhieni' fel y noda'r Strategaeth. Tanlinella hyn y gwahaniaeth rhwng:

i. cynllunio er mwyn ymateb i'r galw (gan ragdybio y bydd galw cynyddol am addysg Gymraeg); a
ii. chynllunio pwrpasol gyda'r bwriad clir o gynyddu darpariaeth a symbylu twf yn y galw.

5.10 Mae'r Strategaeth yn anelu at greu twf yn y ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg drwy'r senario gyntaf, uchod. Nid yw'r dull hwn o gynllunio, fodd bynnag, o anghenraid yn sicrhau twf yn y ddarpariaeth. Nid yw, ychwaith, o anghenraid yn sail addas ar gyfer cynllunio ym mhob sector, gan gynnwys y sector addysg bellach lle mae lefel y galw am ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg wedi bod yn wan yn hanesyddol. Mae'r dystiolaeth a gasglwyd wedi cynnwys enghreifftiau o rai sefydliadau addysg bellach yn mynd ati'n rhagweithiol i geisio creu galw am ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg a dwyeithog, yn hytrach nag ymateb i'r galw gan fyfyrwyr fel sail ar gyfer cynllunio darpariaeth.

**Ansawdd darpariaeth**

5.11 Ceir cyfeiriad yn y Strategaeth at gefnogi gwelliannau cyson yn ansawdd y ddarpariaeth (tud. 11). Fodd bynnag, mae ansawdd yn ystyriaeth gymharol ymylol yng nghyd-destun nodau ac amcanion y Strategaeth. Mae ansawdd y ddarpariaeth ac ansawdd profiad dysgwyr o'r gyfundrefn addysg yn debygol o ddylanwadu ar ystod eang o'r themau a blaenoriaethau sy'n rhan o nodau'r Strategaeth, gan gynnwys:

- dilyniant mewn addysg cyfrwng Cymraeg ar hyd y cyfnodau addysg;
- lefel y galw am addysg Gymraeg (y galw ymysg rhieni a'r galw ymysg dysgwyr yng nghyfnodau ôl-14 addysg a hyfforddiant);
- sgiliau iaith Gymraeg; a
- chyrhaeddiad academaidd yn gyffredinol.

5.12 Yn ystod cyfweliadau cyfeiriodd rhanddeiliaid ac ymarferwyr at yr heriau penodol sy'n wynebu ysgolion cyfrwng Cymraeg wrth iddynt weithio i wella safonau a chodi ansawdd darpariaeth. Yn gyffredinol ystyrir bod y gyfundrefn addysg Gymraeg yn dlotach o ran adnoddau a'r 'isadeiledd' cyffredinol. Mae maint y gweithlu yn llai: dengys y data bod niferoedd yr ymgeiswyr i swyddi gweigion mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg (cynradd ac uwchradd) yn is o lawer na'r niferoedd cyfatebol sy'n ymgeisio am swyddi mewn ysgolion cyfrwng Saesneg.[37] Ceir heriau eraill sydd ynghlwm ag addysgu drwy gyfrwng iaith nad yw'n famiaith i gyfran helaeth o ddysgwyr. Bydd yr adroddiad terfynol yn ystyried i ba raddau y mae'r Strategaeth yn cydnabod yr heriau hyn yn agored a sicrhau bod y gefnogaeth sydd ar gael yn ddigonol i sicrhau darpariaeth o'r safon uchaf posibl.

[37] Grwp Cynghori'r Gweinidog Addysg a Sgiliau ar y Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg – Papur ar Hyfforddiant Cychwynnol i Athrawon cyfrwng Cymraeg (Ebrill 2014). *Heb ei gyhoeddi.*

## Sgiliau iaith a defnydd o sgiliau iaith gan bobl ifanc

5.13 Un o nodau'r Strategaeth yw creu cyfundrefn addysg Gymraeg sy'n llwyddo i feithrin pobl ifanc sy'n wirioneddol ddwyieithog. Ac eto, mae mesur llwyddiant yn erbyn y nod hwn yn broblematig. Mae ystod o ffactorau yn dylanwadu ar ddatblygiad sgiliau iaith pobl ifanc sydd y tu allan i gylch dylanwad ysgolion. Mae'r rhain yn cynnwys defnydd o'r Gymraeg yn y cartref, argaeledd cyfleoedd anffurfiol i ddefnyddio'r iaith, arferion cymdeithasol ymysg cyfoedion ac, yn hollbwysig, ewyllys i ddefnyddio'r iaith.

5.14 Awgryma peth tystiolaeth a gasglwyd yn ystod yr astudiaethau ardal bod agweddau pobl ifanc tuag at y Gymraeg yn newid wrth iddynt symud ar hyd y gwahanol gyfnodau addysg. Mae angen sylfaen dystiolaeth fwy cyflawn i ddeall agweddau pobl ifanc at eu sgiliau Gymraeg, gan gynnwys cyn-ddisgyblion, er mwyn galluogi ysgolion a phartneriaid eraill i gefnogi ac atgyfnerthu'r sgiliau yn y ffyrdd mwyaf effeithiol.

## Materion pellach i'w hystyried

5.15 Mae'r broses o baratoi'r adroddiad interim hwn wedi adnabod bylchau yn y dystiolaeth y bydd angen sylw yn ystod gweddill y gwaith. Mae rhai o'r bylchau hyn yn faterion sy'n ymwneud ag amcanion strategol neu elfennau o'r cynllun gweithredu nad ydynt eto wedi derbyn sylw llawn yn ystod cyfweliadau neu ymchwil pen desg:

<u>Cynllunio darpariaeth</u>

- Cynyddu mynediad i ddarpariaeth yn y **blynyddoedd cynnar**. Pa dystiolaeth sydd ar gael mewn perthynas â'r camau a gymerir gan awdurdodau lleol i gynyddu mynediad i ddarpariaeth blynyddoedd cynnar a chynradd cyfrwng Cymraeg yn eu cymunedau?
- Dylanwad y Strategaeth yng nghyd-destun gwasanaethau a'r gefnogaeth i ddysgwyr ag **anghenion dysgu ychwanegol**.

- Ystyriaeth o effeithiolrwydd y gwahanol fodelau o ddarparu cyfleoedd i **hwyrddyfodiaid** fanteisio ar ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg. A oes unrhyw Ganolfannau Hwyrddyfodiaid neu raglenni trochi wedi'u sefydlu ers cyhoeddi / yn sgil y Strategaeth a pha dystiolaeth sydd ynghylch eu heffeithiolrwydd?
- Dylanwad gweithredu'r **Mesur Dysgu a Sgiliau (Cymru) 2009** ar nodau'r Strategaeth.

Sgiliau iaith Gymraeg

- Y cynnydd wrth weithredu prosiectau sy'n rhan o'r **Cynllun Gweithredu Cymraeg ail iaith**.
- Datblygiadau sgiliau **Cymraeg yn y gweithle**, gan gynnwys tystiolaeth a gesglir drwy gyfweliadau gyda rhanddeiliaid i drafod Dysgu yn Seiliedig ar Waith drwy gyfrwng y Gymraeg.

Cymorth canolog

- Effaith **datblygiadau technolegol** ar addysg cyfrwng Cymraeg, gan gynnwys y gweithredoedd penodol a enwir yn y Strategaeth e.e. datblygiad Termiadur addysg.

Gweithlu

- Datblygiadau ym maes **hyfforddiant cychwynnol a datblygiad proffesiynol cynnar** i ymarferwyr.

Sgiliau iaith Gymraeg yn y gymuned

- Tystiolaeth o gynllunio bwriadus ar gyfer **defnydd cymdeithasol ac anffurfiol** o'r iaith Gymraeg.

5.16 Mae'r rhaglen ymchwil hefyd wedi cyflwyno cwestiynau newydd sydd yn mynd y tu hwnt i'r nodau ac amcanion penodol yn y Strategaeth.

i. A yw'r Strategaeth yn adlewyrchu'r blaenoriaethau polisi eraill sydd ar flaen meddyliau penaethiaid ysgolion a cholegau?

ii. Pa mor effeithiol yw'r fframwaith deddfwriaethol a'r pwerau statudol sydd gan Lywodraeth Cymru wrth sicrhau bod prosesau cynllunio cadarn mewn lle ar lefel leol?
iii. A yw 'ymateb i'r galw' fel sail ar gyfer cynllunio darpariaeth yn ddigon i sicrhau twf mewn darpariaeth ar y raddfa a ddymunir ar draws y gwahanol gyfnodau addysg?
iv. Pa wahaniaeth y mae'r Strategaeth wedi'i wneud i brofiad dysgwyr o addysg cyfrwng Cymraeg?
v. A roddir cydnabyddiaeth ddigonol i'r disgwyliadau neu ofynion ychwanegol sydd ar ysgolion cyfrwng Cymraeg wrth gefnogi datblygiad sgiliau iaith yn y Gymraeg?

5.17 Bydd atebion i'r cwestiynau hyn yn bwydo argymhellion mewn perthynas â gweithrediad y Strategaeth yn y dyfodol.

## Atodiad 1: Rhanddeiliaid cenedlaethol a gyfrannodd i'r gwerthusiad hyd yma

| Sefydliad | Cynrychiolwyr |
|---|---|
| **ColegauCymru** | X 3 |
| **Y Coleg Cymraeg Cenedlaethol** | X 1 |
| **Comisiynydd y Gymraeg** | X 1 |
| **CYDAG** | X 2 |
| **Estyn** | X 4 |
| **Mudiad Meithrin** | X 1 |
| **Network to Promote Linguistic Diversity (NPLD)** | X 1 |
| **Niace Dysgu Cymru** | X 1 |
| **Llywodraeth Cymru** | X 8 |
| **Rhieni dros Addysg Gymraeg** | X 2 |
| **UCAC** | X 2 |

## Atodiad 2: Cyswllt rhwng sampl o ddogfennau polisi ac adolygiadau Adran Addysg a Sgiliau Llywodraeth Cymru a’r Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg[38]

| Enw’r ddogfen / polisi (dyddiad cyhoeddi)<br><br>Disgrifiad o’r ddogfen | A oes cyfeiriad penodol at y Strategaeth? | Yn cynnwys amcanion, gweithredoedd neu sylwadau sy’n cefnogi’r Strategaeth (nodir enghreifftiau o destun perthnasol) |
|---|---|---|
| **Model cenedlaethol ar gyfer gweithio’n rhanbarthol (Chwefror 2014)**<br><br>Dogfen bolisi Llywodraeth Cymru | Oes | Ydy<br>*Bydd y consortia yn cydlynu ac yn sicrhau ansawdd gweithgarwch i fodloni nodau'r Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg drwy sicrhau bod y Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg a'r Grant Cymraeg mewn Addysg yn gydnaws â'i gilydd ar draws pob un o'r awdurdodau lleol ac ym mhob un o'r consortia rhanbarthol, fel bod cysondeb o ran datblygu rhagoriaeth mewn addysgeg ac o ran bodloni'r targedau y cytunwyd arnynt, nid yn unig ar draws y sectorau cyfrwng Cymraeg a dwyieithog, ond hefyd wrth gyflwyno Cymraeg fel ail iaith.* |
| **Adolygiad o Hyfforddiant Cychwynnol Athrawon yng Nghymru (Adroddiad Tabberer) (Gorffennaf 2013)**<br><br>Adroddiad annibynnol | Nac oes | Ydy, i raddau<br>*Sector HCA gweddol fach sydd yng Nghymru ac mae gofyn iddo ddarparu athrawon newydd o ansawdd a hefyd gwasanaethu’r rhanbarthau, sy’n amrywiol o ran dwysedd poblogaeth a’r iaith Gymraeg a thraddodiadau Cymreig”*<br><br>*Mae’r adroddiad yn cydnabod pwysigrwydd y cymhellion ychwanegol ar gael i’r sawl sy’n hyfforddi drwy gyfrwng y Gymraeg, dan y Cynllun Gwella Cyfrwng Cymraeg, fel modd i gynyddu nifer yr athrawon sydd ar gael i addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg.* |
| **Adolygiad o Hyfforddiant Cychwynnol Athrawon yng Nghymru (Tachwedd 2013)**<br><br>Ymateb Llywodraeth Cymru i adolygiad annibynnol | *Nac oes* | Ydy, i raddau<br>*Mae cymhellion ychwanegol ar gael i’r sawl sy’n hyfforddi drwy gyfrwng y Gymraeg, dan y Cynllun Gwella Cyfrwng Cymraeg. Mae’r Cynllun yn bwysig o ran cynyddu nifer yr athrawon sydd ar gael i addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg. Mae achos cryf dros barhau â’r cymhellion hyn.* |
| **Ymgysylltu a Datblygiad Ieuenctid: Cynllun gweithredu (Tachwedd 2013)**<br><br>Dogfen bolisi Llywodraeth Cymru | Oes | Ydy<br>*Mae Llywodraeth Cymru hefyd yn ymrwymedig i weld y Gymraeg yn ffynnu. Mae Strategaeth y Gymraeg a’r Strategaeth addysg cyfrwng Cymraeg yn amlinellu ein huchelgais i atgyfnerthu’r defnydd o’r Gymraeg mewn bywyd bob dydd. Byddwn yn disgwyl i ardaloedd lleol ystyried pwysigrwydd anghenion ieithyddol pobl ifanc* |

[38] Mae’r atodiad hwn yn crynhoi’r dadansoddiad a gwblhawyd i ystyried cyfeiriadau at y Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg yn adroddiadau ac adolygiadau polisi a gyhoeddwyd gan Adran Addysg a Sgiliau Llywodraeth Cymru. Gweler Adran 3.19 yr adroddiad am ragor o wybodaeth.

| | | |
|---|---|---|
| | | *wrth weithredu'r fframwaith.* |
| **Darparu gwasanaethau addysg yng Nghymru yn y dyfodol (Adroddiad Hill) (Mehefin 2013)**<br><br>Adroddiad annibynnol | *Oes (tud 33)* | Ydy, ceir sawl cyfeiriad at gefnogi darpariaeth cyfrwng Cymraeg, gan gynnwys<br>*Sicrhau bod ystod ddigonol o ddeunyddiau ac adnoddau Cymraeg ar gael i gefnogi'r broses o roi'r Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd Cenedlaethol ar waith ar draws y cwricwlwm, ac a fydd yn gymorth hefyd wrth addysgu pynciau eraill.*<br><br>*Ysgolion cyfrwng Cymraeg a chyfrwng Saesneg i gydweithio'n helaeth ar raglenni datblygu proffesiynol sy'n meithrin sgiliau addysgu a dysgu generig ar draws y mathau o ysgolion. (AS4.3)*<br><br>*Dylai'r consortia roi'r fframwaith hwn ar waith mewn pum prif faes: rhoi'r Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd Cenedlaethol ar waith, cymorth ar gyfer addysgu'r Gymraeg,* |
| **Adeiladu Dyfodol Disglair: Cynllun y Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant (Awst 2013)**<br><br>Dogfen bolisi Llywodraeth Cymru | Nac oes (cyfeiriad mewn atodiad sy'n rhestru polisïau Llywodraeth Cymru) | Ydy, i raddau<br>*Gwella hygyrchedd addysg a gofal plant cynnar drwy*<br>• *weithio gyda Mudiad Meithrin a darparwyr eraill drwy amrywiaeth o grantiau er mwyn cynyddu ansawdd a swm y ddarpariaeth gofal plant cyfrwng Cymraeg fel bod gan rieni ddewis o ran iaith gyntaf eu lleoliad gofal plant a'r addysg a gaiff eu plant* |
| **Grant Effeithiolrwydd Ysgolion a Grant Amddifadedd Disgyblion: Canllawiau (Ebrill 2013)**<br><br>Dogfen bolisi Llywodraeth Cymru | Oes | Ydy, nodir sylwadau yn esbonio perthynas y grant â'r Strategaeth.<br>*Mae Llywodraeth Cymru yn darparu arian GEY i wella safonau ym meysydd llythrennedd, rhifedd a lleihau effaith tlodi ar gyflawniad addysgol ym mhob ysgol, sy'n cynnwys cefnogi gweithgareddau cyfrwng Cymraeg mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg.*<br><br>*Dylid defnyddio arian y Grant Cymraeg mewn Addysg i ategu yn hytrach na disodli arian GEY ar gyfer gweithgareddau sy'n cefnogi'r blaenoriaethau hyn mewn lleoliadau cyfrwng Cymraeg.* |
| **Adolygiad o Gymwysterau 14-19 (Tachwedd 2012)**<br><br>Adroddiad annibynnol | Nac oes | Ydy<br>*Fel cenedl ddwyieithog, mae angen cymwysterau a llwybrau dilyniant ar Gymru sydd ar gael drwy gyfrwng y Gymraeg a'r Saesneg, rhywbeth nad yw'r farchnad gymwysterau yn ei gyflenwi heb gymorth.*<br><br>*Dylai Llywodraeth Cymru sicrhau llwybrau dilyniant clir drwy gyfrwng y Gymraeg. Dylai cymwysterau TGAU a Safon Uwch barhau i gael eu cynnig, fel y maent ar hyn o bryd, yn Gymraeg ac yn Saesneg, am yr un gost i ddarparwyr. Erbyn 2015, dylent fod ar gael yn Gymraeg ac yn Saesneg yr un pryd. (Argymhelliad 6)* |
| **Rhaglen Lythrennedd** | Nac oes | Ydy |

| | | |
|---|---|---|
| **Genedlaethol (Hydref 2012)**<br><br>Dogfen gwricwlwm Llywodraeth Cymru | | *Bydd dysgwyr yn canolbwyntio ar ddatblygu llythrennedd iaith gyntaf yn y Gymraeg neu'r Saesneg gyda'r disgwyliad y bydd plant sy'n mynd i ysgolion cyfrwng Cymraeg yn cyrraedd yr un lefel o lythrennedd yn y ddwy iaith erbyn diwedd Cyfnod Allweddol 2.* |
| **Datganiad Polisi ar Addysg Uwch (Mehefin 2012)**<br><br>Dogfen bolisi Llywodraeth Cymru | Oes | Ydy<br>*Mae angen creu cysylltiadau agosach nawr [rhwng y Coleg Cymraeg Cenedlaethol] ag ysgolion a'r sector AB er mwyn uchafu dilyniant at addysg uwch a rhoi sylfaen i'r Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg.* |
| **Cynllun gweithredu Gwella Ysgolion (2012)**<br><br>Dogfen bolisi Llywodraeth Cymru | Oes | Ydy<br>*Er mwyn parhau i wella ansawdd addysg Gymraeg, byddwn yn:*<br>• *gofyn i awdurdodau lleol gyflwyno Cynlluniau Strategol diwygiedig Cymraeg mewn Addysg i AdAS ym mis Rhagfyr 2012 i'w gweithredu o Ebrill 2013.*<br>• *cyhoeddi canllawiau ar gyfer Grant Cymraeg mewn Addysg 2013–14 ym mis Hydref 2012, gyda'r disgwyliad y bydd y Grant yn cael ei weithredu ar lefel consortia o Ebrill 2013*<br>• *parhau i gynnig y Cynllun Sabothol er mwyn rhoi hyfforddiant i ymarferwyr yn y Gymraeg ac o ran methodoleg.* |

## Atodiad 3: Llyfryddiaeth


Llywodraeth Cymru (2009) *Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg: Ymgynghoriad.*

Llywodraeth Cymru (2010) *Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg*.

Llywodraeth Cymru (2011) *Fframwaith Gwerthuso Arfaethedig ar gyfer y Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg*.

Llywodraeth Cymru (2012a) *Adolygiad o Gymwysterau ar gyfer pobl ifanc 14 i 19 yng Nghymru.*

Llywodraeth Cymru (2012b) *Iaith fyw: iaith byw: Strategaeth y Gymraeg 2012-2017*.

Llywodraeth Cymru (2012c) *Cyfrifiad 2011: Y Canlyniadau Cyntaf am yr Iaith Gymraeg.*

Llywodraeth Cymru (2013a) *Cynlluniau Strategol y Gymraeg mewn Addysg – canllawiau.*

Llywodraeth Cymru (2013b) *Fframwaith Gwerthuso Strategaeth y Gymraeg.*

Llywodraeth Cymru (2013c) *Un iaith i bawb: Adolygiad o Gymraeg ail iaith yng Nghyfnodau Allweddol 3 a 4.*

Llywodraeth Cymru (2013d) *Codi golygon: adolygiad o Gymraeg i Oedolion.*

Llywodraeth Cymru (2013e) *Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg: Adroddiad blynyddol 2012–13.*

Llywodraeth Cymru (2013f) *Cynllun Gweithredu'r Fframwaith Ymgysylltu a Dilyniant.*

Llywodraeth Cymru (2013g) *Cynlluniau Strategol y Gymraeg mewn Addysg.*

Llywodraeth Cymru (2013h) *Rheoliadau Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg ac Asesu'r Galw am Addysg Cyfrwng Cymraeg (Cymru).*

Llywodraeth Cymru (2014a) *Gwerthusiad o'r Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg: Adolygiad o'r Cynllun Sabothol Iaith Gymraeg ar gyfer ymarferwyr addysgol: profiad cyfranogwyr 2011-2012.*

Llywodraeth Cymru (2014b) *Gwerthusiad o'r Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg: Adolygiad o Ddefnydd ac Ansawdd yr Adnoddau a Gomisiynwyd gan Uned y Gymraeg mewn Addysg, Llywodraeth Cymru.*

Llywodraeth Cymru (2014c) *Gwerthusiad o'r Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg: Astudiaeth o waith yr Hyrwyddwyr Dwyieithrwydd mewn Addysg Bellach, Llywodraeth Cymru.*

Llywodraeth Cymru (2014d) *Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg: Adroddiad blynyddol 2013–14.*

Roberts, G. a Williams, C. (gol) (2003), *Addysg Gymraeg Addysg Gymreig.* Prifysgol Bangor.

Rheoliadau Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg ac Asesu'r Galw am Addysg Cyfrwng Cymraeg (Cymru) 2013, Rhif 3048 (Cy. 307).

Thomas, H.S. (2010), *Brwydr i Baradwys? Y Dylanwadau ar Dwf Ysgolion Cymraeg De-ddwyrain Cymru.* Gwasg Prifysgol Cymru.

Williams, I.W. (gol.) (2002) *Hanes Sefydlu Ysgolion Cymraeg 1939-2000.* Y Lolfa.

*Cymru'n Un: Rhaglen flaengar ar gyfer llywodraethu Cymru* (2007) Cytundeb rhwng Grŵp Llafur a Grŵp Plaid Cymru yn y Cynulliad Cenedlaethol.